# Bwrdd Rhaglen - Cynllun Ymateb
# *Programme Board – Response Plan*

Cyfarfod / Meeting

12:30, Dydd Llun 2 Mawrth 2026 / 12:30, Monday 2 March 2026

Microsoft Teams

## AGENDA

<table>
<tr><th>Rhif / No</th><th>Amser /Time</th><th>Eitem / Item</th></tr>
<tr><td>1</td><td>12:30 – 12:40</td><td>Croeso a Chyflwyniadau / Welcome and Introductions<ul><li>Datgan Buddiant / Declaration of Interests</li><li>Cylch Gorchwyl / Terms of Reference</li></ul></td></tr>
<tr><td>2</td><td>12:40- 12:50</td><td>Diweddariadau –<ul><li>Sally Holland, Cadeirydd y Bwrdd / Chair of the Board</li><li>Cyngor Gwynedd</li></ul></td></tr>
<tr><td>3</td><td>12:50- 13:00</td><td>Cofnodion a Phwyntiau Gweithredu 08/12/2025 / Minutes and Action Points</td></tr>
<tr><td>4</td><td>13:00- 14:15</td><td>Rhaglen Waith / Work Programme;<ol><li>Adroddiad Cynnydd / Overview Report</li><li>Rhaglen Waith / Work Programme</li><li>Mesurau/Measures</li></ol>
<table>
<tr><th></th><th>Thema / Theme</th><th>Arweinydd Thema<br>Theme Leader</th></tr>
<tr><td>Thema 1</td><td>Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr<br>Voice of the Child and Supporting Victims</td><td>Gwern ap Rhisiart</td></tr>
<tr><td>Thema 2</td><td>Rheoli Honiadau a Phryderon am Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant<br>Managing Allegations and Concerns about Adults who work with Children</td><td>Dylan Owen</td></tr>
<tr><td>Thema 3</td><td>Hyfforddiant a Pholisïau<br>Training and Policies</td><td>Ian Jones</td></tr>
<tr><td>Thema 4</td><td>Llywodraethu<br>Governance</td><td>Alison Halliday</td></tr>
<tr><td>Thema 5</td><td>Arferion Cyfyngol</td><td>Llion Williams</td></tr>
</table>
</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td></td><td></td><td><table><tr><td></td><td>Restrictive Practices</td><td></td></tr><tr><td>Thema 6</td><td>Cynllunio ac Ymateb i Argyfwng<br>Emergency Planning and Response</td><td>Catrin Love</td></tr></table></td></tr>
<tr><td>5</td><td>14:15-<br>14:35</td><td>Eitem Penodol / Specific Item:<br>• Sicrwydd Ansawdd / Quality Assurance</td></tr>
<tr><td>6</td><td>14:35-<br>14:55</td><td>Eitem Penodol / Specific Item:<br>• Strategaeth Llais y Plentyn / Voice of the Child Strategy</td></tr>
<tr><td>7</td><td>14:55-<br>15:00</td><td>UFA / AOB</td></tr>
<tr><td colspan="3">Dogfennau atodol er gwybodaeth yn unig / Additional documents for information only<br>• Cofrestr Risg / Risk Register<br>• Crynodeb – Beth sydd wedi newid? / Summary – What has changed?</td></tr>
</table>

## CYLCH GORCHWYL – CYNLLUN YMATEB: CYFIAWNDER TRWY EIN DEWRDER

**Pwrpas:**

1. Gwirio a herio cynnydd priodol ac amserol ar y 7 ffrwd waith sydd yn y Cynllun Ymateb: Cyfiawnder trwy ein dewrder.
2. Gwirio a herio fod cyflawniad y materion unigol o fewn pob ffrwd waith yn drwyadl a phriodol.
3. Adolygu cynnwys y Cynllun Ymateb: Cyfiawnder trwy ein dewrder wrth i'r sefyllfa ddatblygu, a sicrhau fod y Cynllun yn cael ei addasu i ymateb yn briodol ac amserol ac yn ymateb i argymhellion yr Adolygiad Ymarfer Plant.
4. Adrodd yn ôl i Gabinet y Cyngor yn rheolaidd ar gynnydd priodol ac amserol y ffrydiau gwaith.
5. Gall y Bwrdd Rhaglen goladu sylwadau a phwyntiau dysgu sydd â goblygiadau y tu hwnt i Wynedd, a bydd yn adrodd ar y rhain i'r awdurdodau cenedlaethol priodol - rhai ohonynt yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd hwn.

**Trefniadau'r Cyfarfod:**

- Lle bynnag y bo modd, trefnwch fod dirprwy addas o ran statws yn gallu adrodd ar eich rhan, os na allwch fod yn bresennol.
- Statws cofnodion a gwybodaeth a rennir yn y cyfarfod: ~~cyfrinachol tan yn y parth cyhoeddus.~~ dogfennau i'w rhannu yn gyhoeddus oni bai am eitemau eithriedig
- Gofynnir i bob cyfranogwr ddatgan unrhyw fuddiant personol ar ddechrau pob cyfarfod os y bydd angen gwneud hynny
- Bydd aelodau allanol yn cyfarfod yn chwarterol am hanner awr cyn i'r cyfarfod ddechrau gyda'r Cadeirydd i drafod boddhad gyda chynnydd ac unrhyw gwestiynau y dymunwn eu codi. Bydd ysgrifennydd o Wynedd yn mynychu'r rhag-gyfarfod hwn a bydd nodiadau'n cael eu cymryd, er tryloywder. Bydd yr un trefniadau a'r uchod hefyd yn berthnasol ar gyfer Aelodau Cabinet.
- Bydd y rhan fwyaf o gyfarfodydd yn cynnwys un neu fwy o eitemau sylweddol fesul cyfarfod, megis edrych ar un ffrwd waith yn fanwl neu ystyried adroddiad (ee CPR).

**Aelodaeth:**

a. **Cadeirydd:**
   - Sally Holland, Cadeirydd

*b.* **Aelodau Etholedig:**
   - Nia Jeffreys (Arweinydd y Cyngor) – CYNG/COUN
   - Menna Trenholme (Dirprwy Arweinydd y Cyngor) – CYNG/COUN
   - Dewi Jones (Cynghorydd) – CYNG/COUN
   - Llio Elenid Owen (Cynghorydd) – CYNG/COUN

c. **Swyddogion:**
   - Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr) - Tim Arweinyddiaeth
   - Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) - Tim Arweinyddiaeth
   - ~~Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol) - Tim Arweinyddiaeth~~
   - Gwern Ap Rhisiart (Pennaeth Adran Addysg) - Adran Addysg

- Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol) - Adran Gwasanaethau Corfforaethol
- Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol) - Tim Arweinyddiaeth
- Sharron Williams Carter (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teuluoedd) - Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd
- Sion Gwynfryn Williams (Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu) - Adran Gwasanaethau Corfforaethol
- Sarah Marion Jones (Arweinydd Tim Cyfathrebu) - Adran Gwasanaethau Corfforaethol
- Iwan Gwilym Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro)
- Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol – Gwasanaethau Corfforaethol)
- Llion Williams (Arweinydd Ansawdd Diogelu a Llesiant) – Adran Addysg
- Alison Halliday (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Ysgolion) - Adran Addysg

**Ch. Cynrychiolwyr y Sector Addysg:**

- Elin Walker Jones (Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Friars) – CYNG/COUN
- Margaret Davies (Pennaeth Ysgol Friars)
- Rhian Parry Jones (Cynrychiolydd - Grŵp Cadeiryddion Penaethiaid Ysgolion)

**d. Cynrychiolwyr Allanol (*Sylwedyddion Gweithredol*):**

- Dyfrig Ellis, Estyn
- Sian Roberts, Arolygiaeth Gofal Cymru
- Kevin Barker, Arolygaeth Gofal Cymru
- Lou Bushell-Bauers, Arolygaeth Gofal Cymru
- Taryn Stephens, Llywodraeth Cymru
- Nicola Edwards, Llywodraeth Cymru
- Georgina Haarhoff, Llywodraeth Cymru
- Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant
- Lina Liu, Comisiynydd Plant
- ~~Sara Jermin, Comisiynydd Plant~~
- ~~Rachel Thomas, Comisiynydd Plant~~
- Geraint Davies, Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

*Cyfrifoldeb Aelodau Cabinet fydd gosod cyfeiriad gwleidyddol strategol y meysydd gwaith dan eu cyfrifoldeb, tra hefyd yn craffu ar waith swyddogion a'u cefnogi.*

*Bydd cynrychiolwyr allanol yn gweithredu fel sylwedyddion gweithredol yn cynnig cyngor a her annibynnol i waith a gweithrediad y Bwrdd.*

*Noder* - Gall aelodaeth y Bwrdd ganiatáu hyblygrwydd i eraill i ymuno ar gyfer eitemau penodol (yn ddibynnol ar yr agenda).

**Trefniadau Adrodd:**

Bydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb : Cyfiawnder trwy ein dewrder yn adrodd i'r Cabinet unwaith pob chwarter ar ddatblygiad y ffrydiau gwaith.

Gall y Bwrdd Rhaglen goladu arsylwadau a phwyntiau dysgu sydd â goblygiadau y tu hwnt i Wynedd, a bydd yn adrodd am y rhain i'r awdurdodau cenedlaethol priodol.

**Amserlen:**

Bydd y Bwrdd Rhaglen yn parhau i gyfarfod nes bod yr holl gamau gweithredu yn y cynllun ymateb wedi'u cwblhau a bod aelodau'r Bwrdd yn fodlon bod tystiolaeth mewn perthynas â'r mesurau effaith a restrir yn dangos effeithiolrwydd y camau gweithredu hyn. Bydd y Cadeirydd yn adolygu'r amserlenni tebygol yn Hydref 2025, pan fydd cymhlethdod a graddfa'r gwaith sy'n ofynnol yn dilyn cyhoeddi'r Adolygiad Ymarfer Plant wedi'i asesu, ac yn adrodd ar hyn i'r Bwrdd. Bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

# Bwrdd Rhaglen - Cynllun Ymateb
# *Programme Board – Response Plan*

Cyfarfod / Meeting

10:00, Dydd Llun 8 Rhagfyr 2025 / 10:00, Monday 8 December 2025

Microsoft Teams

Yn bresennol:

**Cadeirydd:**
Sally Holland (SH)

**Allanol:**
Geraint Davies – Bwrdd Diogelu Plant Gog.Cymru (GD), Rocio Cifuentes – Commisiynydd Plant (RC), Lina Liu – Commisiynydd Plant (SJ), Dyfrig Ellis – Estyn (DE), Sian Roberts – Arolygaeth Gofal Cymru (SR), Nicola Edwards – Llywodraeth Cymru (NE), Taryn Stephens – Llywodraeth Cymru (TS)

**Cynghorwyr:**

Cyng. Nia Jeffreys (NJ), Cyng. Menna Trenholme (MT), Cyng. Dewi Jones (DJ), Cyng. Llio Elenid Owen (LEO),

**Cynrychiolwyr y Sector Uwchradd:**

Margaret Davies (MD), Cyng. Elin Walker Jones (EWJ), Kathy Sion (KS), Rhian Parry Jones (RPJ)

**Swyddogion:**

Dafydd Gibbard (DG); Nia Grisdale (NG), Ian Jones (IJ), Sion Gwynfryn Williams (SGW), Sarah Marion Jones (SMJ), Gwern Ap Rhisiart (GApRh), Dylan Owen (DO), Sharron Williams Carter (SWC), Iwan Evans (IGE), Catrin Love (CL)

Eleri Jones, Ffion Mai Jones, Lois Owens, Bethan Mair Evans (Cyfieithydd)

**NODIADAU GWEITHREDU**

| | GWEITHREDIAD | GAN BWY | ERBYN PRYD |
|---|---|---|---|
| 1 | **Croeso a Chyflwyniadau** | | |
| | Croesawyd pawb i'r cyfarfod a cyflwynwyd pawb a'i rolau. | | |

| | GWEITHREDIAD | GAN BWY | ERBYN PRYD |
|---|---|---|---|
| | Diolchwyd i Sara Jermin a Rachel Thomas am eu cyfraniad fel sylwedyddion annibynnol a dymunwyd yn dda iddynt yn eu rolau newydd. | | |
| 2 | **Datgan Buddiant** | | |
| | Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant i'r eitemau ar agenda'r cyfarfod gan aelodau'r Bwrdd. | | |
| 3. | **Cylch Gorchwyl** | | |
| | NWJ – Codi'r mater o dryloywder dogfennau a gyflwynir i'r Bwrdd. Rhain yn parhau wedi'i marcio yn gyfrinachol ac efallai yn bwydo i'r camargraff o beidio bod yn agored? Gofynnwyd os oes modd cyhoeddi ar y wefan er tryloywder.<br>• **Trafodaeth tu allan i'r cyfarfod ar y posibilrwydd o wneud hyn a darparu gwybodaeth ar statws papurau cyn y cyfarfod nesaf.**<br><br>NWJ – Oes angen sicrhau bod llais y dioddefwyr yn cael eu clywed ar y Bwrdd? (e.e. corff sy'n cynrychioli dioddefwyr neu is-grŵp i fwydo mewn). Atebodd SH;<br>- Bwriad gwahodd SARC Gogledd Cymru (eiriolwyr mewn cysylltiad â dioddefwyr unigol) i fynychu un o'r cyfarfodydd nesaf y grŵp i roi arweiniad ar y ffordd orau i gyfarch hyn.<br>- Aelodau o'r fforwm ieuenctid yn cael eu gwahodd i'r gweithdy llais y plentyn mis Chwefror – hyn yn ffordd arall o gael mewnbwn plant a phobl ifanc<br>- Cyfarfod yn cael ei gynnal wythnos nesaf rhwng SH/Jan Pickles sydd mewn cysylltiad efo rhai o'r dioddefwyr (gan gynnwys rhai sydd ddim mewn cyswllt a'r SARC)– gall rhoi barn pellach ar ffurf orau i gael eu mewnbwn.<br>• **Gwahodd cynrychiolaeth o'r SARC i'r cyfarfod nesaf o'r Bwrdd i gael mewnbwn ar lais y dioddefwyr.**<br><br>DO – Nodwyd bod angen adolygu y pwrpas yn y Cylch Gorchwyl presennol gan ei fod yn cyfeirio at '4 ffrwd gwaith'. Hefyd angen sicrhau bod aelodaeth yn cael ei adolygu gan newid pellach wedi bod.<br>• **Sylw i gynnwys y Cylch Gorchwyl yn cynnwys adolygu aelodaeth a nodir.** | **SH/DG**<br><br>**SH/DG**<br><br>**EJ** | |

| | GWEITHREDIAD | GAN BWY | ERBYN PRYD |
|---|---|---|---|
| | EWJ – Kathy Sion fel is-cadeirydd y llywodraethwyr yn bresennol oherwydd pryder na fyddai EWJ yn medru bod yn bresennol. Hefyd yn cytuno bod angen sicrhau bod llais y dioddefwyr yn cael eu bwydo i'r Bwrdd. Wedi codi mewn cyfarfod o'r Llywodraethwyr yn Ysgol Friars bod angen rhoi pwyslais ar lais rhieni a theuluoedd yn ogystal.<br>• **Sicrhau bod cynrychioli llais rhieni a theuluoedd yn cael ei drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.**<br><br>TS – Angen ymwybyddiaeth o'r lleisiau sy'n rhan o'r drafodaeth. Dim pawb fydd yn dymuno cymryd rhan a bydd angen sicrhau cylch o adrodd yn ôl i ddioddefwyr a goroeswyr eraill hefyd (h.y. rhai sydd ddim yn dymuno cymryd rhan).<br>• **Sicrhau cylch adrodd ar adborth i ddioddefwyr sydd ddim eisiau cymryd rhan yn cael ei drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.**<br><br>SH – Gofynnwyd am farn am hyd oes y Bwrdd (cylch gorchwyl yn cyfeirio at adolygu hyn yn dilyn cyhoeddiad yr AYP) ac amlder cyfarfodydd.<br>– SH rhagweld y byddai trefniadau craffu yn cryfhau o fewn gweithdrefnau craffu arferol yr awdurdod yn symud ymlaen a rôl y Bwrdd yn tynnu nol. Roedd hefyd yn sylwi bod angen mwy o amser rhwng cyfarfodydd i ganiatáu gweithrediad.<br>- DO - anodd rhoi dyddiad penodol o ran hyd amser bodolaeth y Bwrdd ac angen mesurau clir mewn lle fel bod y Bwrdd wedi eu bodloni efo'r gweithdrefnau mewn lle<br>- DG – gwerthfawrogi cefnogaeth y Bwrdd ar hyn o bryd, posib iawn y byddwn yn fwy hyderus yn y flwyddyn newydd ac yn fater i'w adolygu.<br>- TS - cytuno gyda'r angen am fesurau a bod prosesau clir wedi eu ymgorffori yn nhrefniadau y Cyngor – mater i'r Cabinet a threfniadau craffu i ystyried pan daw y Bwrdd i ben.<br>- NWJ – cytuno byddai'n well cael cyfarfodydd llai aml ond am gyfnod hirach na 2 awr gyda toriad yn y canol.<br>• **Ymestyn cyfarfodydd tu hwnt i pob 6 wythnos ac ymestyn hyd y cyfarfodydd.**<br>• **Adolygu yn mater o hyd oes y Bwrdd mewn cyfarfodydd i'r dyfodol.** | **SH**<br><br>**SH**<br><br>**EJ**<br><br>**SH**<br><br>**DG** | |

| | GWEITHREDIAD | GAN BWY | ERBYN PRYD |
|---|---|---|---|
| | NWJ – Angen edrych ar amserlennu cyfarfodydd craffu am y flwyddyn i ddod. Angen rhai tu hwnt i mis Ionawr fel bod sicrwydd i aelodau o ddilyniant ar waith.<br>• **Ystyried trefniadau cyfarfodydd arbennig (Craffu) tu hwnt i fis Ionawr.** | | |
| **4.** | **Diweddariadau** | | |
| | **Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd)**<br>• Gwaith wedi canolbwyntio ar symud o'r hen gynllun i'r cynllun newydd gyda'r dogfennau newydd yn egluro'r broses o drosglwyddo.<br>• Wedi bod yn cydweithio efo'r Grŵp Sicrwydd Gweinidogol ac hefyd swyddogion wedi bwydo mewn i'r arolwg Estyn/AGC diweddar.<br>• Cyngor llawn wythnos diwethaf wedi trafod rhai materion – cynnig bod y Cabinet angen ystyried pa ymchwiliadau pellach ddylai gael ei gynnal.<br>• Pwyllgorau craffu arbennig a phwyllgor llywodraethu ac archwilio yn cael eu cynnal mis Ionawr lle bydd cyfle i aelodau fynd i fwy o fanylder a gofyn cwestiynau am y Cynllun Ymateb diwygiedig.<br><br>**Nia Jeffreys (Arweinydd, Cyngor Gwynedd)**<br>• Cyfarfod cyntaf o'r Grŵp Sicrwydd Gweinidogol wedi bod a phawb i weld ar yr un dudalen. H.y. dymuno sicrwydd bod pethau mynd i newid, sicrhau bod llais y dioddefwyr (a'r gymuned ehangach) yn cael ei glywed, tryloywder, pwysigrwydd blaenoriaethu.<br>• NWJ yn teimlo bod cyfathrebu angen bod yn flaenoriaeth ar hyn o bryd – negeseuon clir i rhanddeiliaid gan gynnwys aelodau a'r cyhoedd.<br>• DO – nodi mai pwrpas y Grŵp Sicrwydd yw rhoi sicrwydd i'r Gweinidogion bod gweithredu yn digwydd. Nid oes bwriad dyblygu gwaith a byddwn yn adrodd yn ôl yn rheolaidd.<br>• NE – o ochr y Llywodraeth hefyd yn cytuno gyda'r materion sydd wedi eu nodi fel prif flaenoriaethau i'r Grŵp Sicrwydd. Bwriad y Grŵp yw rhoi sicrwydd nid yn unig i'r Llywodraeth ond hefyd i'r Awdurdod Lleol fel ffrind critigol a chefnogaeth. Llywodraeth angen sicrhau bod gan Gwynedd y capasiti a'r adnoddau i gyflawni. Posib | | |

| | GWEITHREDIAD | GAN BWY | ERBYN PRYD |
|---|---|---|---|
| | gwahodd SH i'r Grŵp Sicrwydd petai angen gwneud hynny yn y dyfodol.<br><br>**Sian Roberts / Dyfrig Ellis (Arolwg AGC/Estyn)**<br>• Arolwg ar y cyd AGC/Estyn wedi'i gynnal yn ddiweddar o drefniadau diogelu ar draws gwasanaethau Addysg a Plant yng Ngwynedd. Awdurdod lleol wedi ymgysylltu yn llawn efo'r ymweliad.<br>• Arolygu o dan 4 maes sef; llais y plentyn, gweithio aml asiantaethol, llywodraethu ac arweinyddiaeth, hyfforddiant a chymorth.<br>• Sawl ffynhonnell ar gyfer y gwaith gan gynnwys trafodaethau gyda aelodau'r Bwrdd Diogelu, Bwrdd Ymateb, Rheolwyr, Llywodraethwyr, Aelodau a Chadeiryddion Pwyllgorau Craffu, wedi ymweld a 6 Ysgol, trafodaethau efo'r Fforwm Ieuenctid. Edrychwyd dros 24 o ffeiliau unigolion rhwng y cyfnod Medi 2024-Medi 2025 fel sampl.<br>• Methu manylu ar ganlyniadau'r arolwg ond ei fod yn nodi cryfderau a llefydd i wella ar draws y 4 maes dan sylw.<br>• Camau pwysig wedi eu cymryd i gryfhau trefniadau diogelu ac ymrwymiad corfforaethol clir ond lle i gysoni a chryfhau trefniadau gwerthuso, hyfforddi a sicrhau tystiolaeth ac aliniad trawsadrannol ar faterion.<br>• Rhagwelir cyhoeddir' adroddiad – 12 Ionawr, 2026.<br>• SR yn pwysleisio bod y Cyngor wedi gwahodd AGC/Estyn i gynnal yr ymarfer ond fod hyn eisoes yn fwriad gan y ddau gorff arolygu felly y cais yn amserol ac yn cyd-fynd efo dymuniad AGC/Estyn. Diolchwyd am y gwaith blaenllaw gan yr Awdurdod ac yr ymrwymiad yn ystod yr ymweliad.<br><br>**Nicola Edwards, Llywodraeth Cymru** (*Adolygiad o gyrff llywodraethu ysgolion)*<br>• Llywodraeth yn ystyried y trefniadau angenrheidiol ar hyn o bryd – edrych i yrru gwahoddiadau allan i gynrychiolwyr gwahanol yn fuan.<br>• Cyfarfod cyntaf o'r swyddogion 21 Ionawr 2026.<br>• Edrych i adeiladu ar adolygiadau blaenorol ac edrych os ydynt dal yn gyfredol, trosolwg lle rydym arni, lle angen bod yn y dyfodol.<br>• Angen cadw golwg ar beth sy'n bosib i'w gyflawni a blaenoriaethau yn symud ymlaen.<br>• Gweithdai wedi eu targedu gyda grwpiau penodol | | |

| | GWEITHREDIAD | GAN BWY | ERBYN PRYD |
|---|---|---|---|
| | • Adrodd yn ôl i'r Grŵp Gweinidogol yn yr Haf ond amserlen cyhoeddi o bosib yn debygol o'i effeithio gan etholiadau y Senedd sydd i ddod.<br><br>**Taryn Stephens, Llywodraeth Cymru** *(Adolygu gweithdrefnau llywodraethiant ac atebolrwydd ar gyfer diogelu plant ac oedolion yng Nghymru)*<br>• Adolygiad yn cael ei gadeirio gan Jan Pickles gyda chefnogaeth swyddogion o'r Llywodraeth.<br>• Cylch Gorchwyl i'w gylchredeg pan yn derfynol ac yn barod i'w gyhoeddi (pwynt gweithredu o'r cyfarfod blaenorol)<br>• Canolbwyntio ar rôl byrddau diogelu rhanbarthol a chenedlaethol, cadeiryddion yn rhan o'r cyfnod ymgysylltu cychwynol.<br>• Adroddiad disgwyl i'w gyhoeddi Gwanwyn 2026 – cyhoeddi yn ddibynol ar etholiadau o bosib.<br><br>**Sally Holland, Cadeirydd y Bwrdd**<br>• Cynnal cyfarfodydd gyda gwahanol rhanddeiliaid – cynnwys aelodau o'r Bwrdd e.e. Tim Rheoli a Chadeirydd y Llywodraethwyr Ysgol Friars, Aelodau Cabinet. Cyfarfod wedi bod hefyd gyda Prif Swyddog Gweithredol SARC.<br>• Cynnal gweithdy 2il o Chwefror ar ymgorffori dull hawliau plant yng Ngwynedd. Hyn ar y cyd efo swyddogion o Swyddfa'r Comisiynydd Plant. Estynwyd gwahoddiad i unrhyw aelod o'r Bwrdd. Pwrpas y gweithdy fydd;<br>1. Sicrhau bod gan bob aelod o'r bwrdd wybodaeth a dealltwriaeth o hawliau plant.<br>2. Darparu gwybodaeth i bob aelod am ymgorffori dull hawliau plant ar draws y Cyngor, a chefnogi aelodau'r bwrdd i ystyried cryfderau a bylchau Gwynedd mewn perthynas â hyn.<br>3. Dadansoddi effaith y Cynllun Ymateb ar hawliau plant a datblygu'r cynllun ymhellach os oes angen. | | |
| **5.** | **Cofnodion a Phwyntiau Gweithredu - 15092025** | | |
| | Pawb yn hapus gyda chynnwys y cofnodion gyda pwyntiau gweithredu isod i'w cario drosodd i'r cyfarfod nesaf; | **TS** | |

| | GWEITHREDIAD | GAN BWY | ERBYN PRYD |
|---|---|---|---|
| | 4. *Cylch gorchwyl a sgôp i gael ei gylchredeg gan **TS** pan yn barod (Llywodraeth Cymru – Adolygu Gweithdrefnau Llywodraethiant ac Atebolrwydd).*<br>10. ***SWC** iori cyflwyniad ar sicrwydd ansawdd mewn gwasanaethau mewn cyfarfod yn y dyfodol. Dylai hyn gynnwys: sut i gefnogi drwy ein systemau, dysgu o brosesau, mapio – enghreifftiau penodol. Bydd hyn yn digwydd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.*<br>11. ***GApRh** i sicrhau bod Cadeirydd y Llywodraethwyr yn derbyn copi uniongyrchol o adroddiadau ymweliadau monitro diogelu, yn hytrach na'r Pennaeth yn unig.*<br>12. ***GApRh** i gasglu arferion diogelu da ar draws ysgolion a thu hwnt, yn dilyn ymweliadau monitro diogelu.* | SWC<br><br>GApRh<br><br>GApRh | |
| **6.** | **Diweddariad – Rhaglen Waith** | | |
| | **A. Adroddiad Trosolwg**<br>• DG - cynllun gwaith bellach yn eang iawn ac methu trafod popeth yn y cyfarfodydd hyn. Adroddiad trosolwg yn ymgais i gynorthwyo'r Bwrdd er mwyn gwneud y defnydd gorau o amser. Gofynnwyd am arweiniad y Bwrdd;<br>a. Cadarnhau bod yr holl argymhellion perthnasol wedi'u cynnwys<br>b. Nodi prif flaenoriaethau ar gyfer gweithredu ar unwaith<br>c. Cynghori ar ymdrin â dibyniaethau (e.e. aros am argymhellion rhanbarthol neu genedlaethol) a lliniaru risgiau posibl<br>• Eglurwyd bod y 7 thema yn cydfynd efo'r 7 thema yn yr adroddiad AYP – cynnwys argymhellion o'r AYP, cynllun gwaith gwreiddiol a rhai newydd.<br>• Posib cyfeirio at fanylder petai angen ond bwriad cynnwys trosolwg ar pob thema gydag arweinyddion penodol yn adrodd ar themau unigol.<br>• Adnodd wedi ei adnabod a swyddogion yn cefnogi yn y cefndir i geisio cael momentwm i symud y gwaith yn ei flaen.<br><br>**B. Cynllun Ymateb Diwygiedig**<br>• Dogfen gyhoeddus wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet mis Ionawr 2025 ac ymgais cychwynol i'w ailwampio yn dilyn cyhoeddiad yr AYP (addasiadau wedi eu amlygu). | | |

| | GWEITHREDIAD | GAN BWY | ERBYN PRYD |
|---|---|---|---|
| | • Egluro sut byddwn yn symud o'r 4 ffrwd gwaith gwreiddiol i'r 7 sy'n alinio efo'r themau yn yr AYP, hefyd adlewyrchu'r 7fed nod sef Atebolrwydd.<br>• **Gofynnwyd am sylwadau aelodau'r bwrdd erbyn diwedd yr wythnos er mwyn eu ymgorffori cyn mynd i Craffu arbennig.**<br><br>*Sylwadau pellach -*<br>• NWJ – yn dilyn pernderfyniad unfrydol y Cyngor llawn bod angen ystyried ymchwiliadau pellach oes angen parhau i gynnwys Ffrwd Gwaith 'C' yn y cynllun gwreiddiol '*ymchwilio, dysgu a gwella'?* Hefyd angen addasu y geiriad yn tud 4 sy'n cyfeirio at yr ymchwiliadau wedi dirwy i ben.<br>• DE – 1.7 a 3.4 'hyfforddiant grooming' - angen eglurder pellach ar y darn yma pwy gyfeirir ato fel '*staff perthnasol'*.<br>• DJ – oes angen ystyried fersiwn hawdd i'w ddarllen? egluro beth yn union aeth o'i le, pam aeth o'i le, beth sydd wedi ei roi mewn lle.<br>• NWJ – cytuno efo syniad DJ, efallai dogfen tebyg i rhai ymgynghoriad cymhleth ("you said, we did") fel fersiwn cychwynol, posib mynd ymhellach efo fersiwn i blant hefyd fel trydydd fersiwn o bosib?<br>• NWJ – Byddai'n dda cael barn broffesiynol os yw 2 flynedd o awdit yn ddigonol neu oes angen mynd ymhellach efo hyn? Mater wedi codi yn y Cyngor Llawn os wedi edrych ddigon pell. Pam ddim mynd mor belled yn ôl ac y gallwn?<br>• **FMJ/SGW/SMJ i ystyried y cynnigion o addasiadau i'r Cynllun Ymateb ac unrhyw fersiynau hawdd i'w darllen.**<br>• **DO i ystyried a yw y cyfnod awdit ar atgyfeiriadau rhan 5 hanesyddol dros gyfnod o 2 flynedd yn ddigonol neu a ddylid mynd yn ôl ymhellach.**<br><br>**C. Templed – Adroddiad Cynnydd**<br>• Gofynnwyd am farn y Bwrdd ar y math yma o ffurf o adrodd ar wybodaeth i'r Bwrdd?<br>*Sylwadau pellach-*<br>• NE – Er yn gwerthfawrogi'r wybodaeth yn tynnu sylw at y ffaith bod angen ystyried capasiti - mwy o gynlluniau sydd gennych, y mwyaf o gynlluniau sy'n rhaid eu diweddaru. | **FMJ/Pawb**<br><br>**FMJ/SMJ/SGW**<br><br>**DO** | |

| | GWEITHREDIAD | GAN BWY | ERBYN PRYD |
|---|---|---|---|
| | • DG – oes yn rhywbeth yn digwydd o fewn y Llywodraeth neu yn genedlaethol i edrych ar argymhellion yr AYP? Ansicr lle mae'r drafodaeth angen bod a beth ddylem symud ymlaen gyda / beth i beidio.<br>• NE yn ymateb nad oes cynllun swyddogol ar y lefel yma ond nifer o lythyrau wedi eu gyrru allan am faterion penodol, e.e. trefniadau Rhan 5. Anhebygol o gyhoeddi unrhyw gynllun cenedlaethol ar y pwynt yma. Edrych i gydweithio gyda sefydliad 'Dysgu' ac eraill i edrych ar arweinyddiaeth cenedlaethol yn y maes Addysg i wthio materion, e.e. hyfforddiant ar feithrin perthnasol amhriodol.<br>• **Angen rhoi sylw i'r cyfeirnod wrth cyfeirio at amserlen yn yr adroddiad cynnydd, e.e. "CPR-1" neu fel arall angen croes-gyfeirio.**<br><br>**Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr**<br>***Swyddog Adrodd: Gwern ap Rhisiart***<br>• Rhoddwyd trosolwg ar lafar o'r cynnydd, heriau a wynebir, risgiau/adnoddau a cherrig milltir allweddol.<br>• Pwyslais ar ymgysylltu gyda'r Fforwm Ieuenctid a chreu cynllun gweithredu ymarferol sy'n nodi blaenoriaethau, cyfrifoldebau ac amserlenni clir ar gyfer ymgorffori diwylliant sy'n canolbwyntio ar blant ar draws pob gwasanaeth.<br>• SWC yn nodi bod bid corfforaethol wedi ei gyflwyno i sicrhau staff ychwanegol i gefnogi gweithredu *CPR-6* (sicrhau bod Gofal Cymdeithasol Plant bob amser yn siarad yn uniongyrchol â'r plentyn, hyd yn oed os nad yw'r plentyn wedi datgelu). Swyddogion eisoes ar waith ar y mater pan yn edrych ar gyfeiriadau Rhan 5.<br>• Hyfforddiant "grooming" – lefel hyfforddiant diogelu safonol wedi ei addasu yn barod ond yr argymhelliad yn son am lefel uwch o hyfforddiant ar gyfer gweithlu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol. Hyn wedi ei gyfarch yn Addysg ond gwaith yn parhau i fynd rhagddo o ran Adran Plant i adolygu'r opsiynau o ddarparu hyfforddiant perthnasol lefel uwch.<br>• Gofynwyd yn benodol am arweiniad os ddylai'r Cyngor symud ymlaen i ddatblygu yr hyfforddiant lefel uwch ein hunain ar feithrin perthnasol amhriodol yntai aros am y Llywodraeth? | EJ | |

| | GWEITHREDIAD | GAN BWY | ERBYN PRYD |
|---|---|---|---|
| | *Sylwadau pellach-*<br>• SH - RASAC ddim yn cefnogi holl ddioddefwyr a goroeswyr felly ym bwysig i gynnwys SARC mewn trafodaethau hefyd.<br>• NWJ – awgrymu datblygu deunyddiau ein hunain ar feithrin perthnasoedd amhriodol er mwyn bod ar flaen y gâd gyda hyn.<br>• NWJ – Angen cyfri bechgyn pan yn cyfeirio at ddioddefwyr hefyd? Oes yna gyswllt efo nhw a cefnogaeth iddyn nhw a'r teuluoedd? E.e. llythyr yn cynnig ymddiheuriad personol wedi mynd gan yr Arweinydd/Prif Weithredwr ond heb wneud hynny gyda'r bechgyn dan sylw.<br>• GApRh yn cadarnhau nad oes cyswllt wedi bod efo'r bechgyn dan sylw ac mai dim ond 1 o'r 4 disgybl sydd yn parhau yn ddisgybl bellach, 3 arall wedi gadael ysgol.<br>• **GApRh i gynnig cyfarfod gyda'r 4 unigolyn i gynnig ymddiheuriad ar ran y Cyngor a sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth mae nhw eu angen.**<br><br>**Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon am Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant**<br>***Swyddog Adrodd: Dylan Owen***<br>• Rhoddwyd trosolwg ar lafar o'r cynnydd, heriau a wynebir, risgiau/adnoddau a cherrig milltir allweddol.<br>• Wedi adolygu a chyflwyno nifer o newidiadau i'r dull edrych ar drefniadau Rhan 5 e.e. sicrhau bod materion yn cael eu penderfynu ar lefel tim yn hytrach na LADO yn unig, edrych ar y ffurflen gyfeirio.<br>• Penderfyniad mewnol 18.11.25 i aros hyd y bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi canllawiau cenedlaethol ar y Polisi Pryderon Lefel Isel – hyn oherwydd cymhlethdod y mater a risg o weithredu yn groes fel Sir. Parhau i godi'r mater gyda'r Grwp Sicrwydd Gweinidogol.<br>• Ffeiliau wedi eu hadolygu yn edrych yn ôl dros 2 flynedd gyda phob cyfeiriad rhan 5 yn deillio o'r cyfnod yno sylw pellach wedi roi i edrych os oedd cyfeiriadau pellach yn edrych yn ôl dros gyfnod ehangach na hynny (yn ôl pa mor bell oedd cofnodion yn mynd). Estyn/AGC hefyd wedi edrych ar 24 o ffeiliau Rhan 5 fel ail haen o sicrwydd. Gofynwyd am farn aelodau'r bwrdd ar y dull samplo ac os oedd hyn yn ddigonol? | **GApRh** | |

| | GWEITHREDIAD | GAN BWY | ERBYN PRYD |
|---|---|---|---|
| | *Sylwadau pellach-*<br>• DWJ- Os oedd system i gofnodi honiadau yn bodoli yn 2012 ond wedi dirwy i ben dros y cyfnod clo, pam a sut bod hyn wedi digwydd? Wedi codi'r mater eisoes ond angen sicrhau gwydnwch trefniadau a hyder na fydd rhain yn llithro yn ôl ymhen amser. DO – hyn ynghlwm a sicrhau mesurau cadarn fydd yn parhau i gael sylw o dan drefniadau herio a chefnogi perfformiad mewnol a threfniadau craffu.<br>• DWJ – siomedig nad oes gan y Llywodraeth raglen cynwysiedig yn dangos yr ymateb cenedlaethol i hyn. Pwysig bod y Bwrdd yn cadw golwg ar hyn a chodi'r mater gyda Grwp Sicrwydd Gweinidogol neu ysgrifennu yn uniongyrchol. Hefyd angen dealltwriaeth gwell o beth sydd wedi digwydd efo argymhellon adroddiad 'Clywch' a bod materion yn parhau i gael sylw.<br>• NWJ – Penderfyniadau Pryderon Lefel Isel angen bod yn flaenoriath yn symud ymlaen, cydnabod bod cymhlethdod ond mae'n rhaid ei uchafu ar y rhestr.<br>• **NWJ a DO i godi materion polisi Pryderon Lefel Isel a rhaglen ymateb y Llywodraeth i argymhellion cenedlaethol yr AYP yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Sicrwydd Gweinidogol**<br><br>**Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau**<br>***Swyddog Adrodd: Ian Jones***<br>• Rhoddwyd trosolwg ar lafar o'r cynnydd, heriau a wynebir, risgiau/adnoddau a cherrig milltir allweddol.<br>• Polisi Canu'r Gloch wedi ei ddiwygio a copi wedi ei gylchredeg am sylwadau'r Bwrdd (eitem nesaf), penodiad Hyrwyddwr Diogelu gyda cynlluniau cyffroes ar y gweill, Cynnydd yn y nifer wedi cwblhau hyfforddiant mandadol ar ddiogelu.<br>• Llithriad wedi bod yn yr amserlen craffu oherwydd cwmni oedd wedi eu penodi wedi ail ystyried y mater ac felly wedi dal materion yn ôl<br><br>*Sylwadau pellach-*<br>• **SH – yn cynnig gwirio efo Jan Pickles o amgylch y polisi "grooming"/finklehor model am gyngor pellach ar ddarpariaeth hyfforddiant posib.** | **NWJ/DO**<br><br>**SH** | |

| | GWEITHREDIAD | GAN BWY | ERBYN PRYD |
|---|---|---|---|
| | **Thema 4 - Llywodraethu**<br>***Swyddog Adrodd: Gwern Ap Rhisiart***<br>• Rhoddwyd trosolwg ar lafar o'r cynnydd, heriau a wynebir, risgiau/adnoddau a cherrig milltir allweddol.<br>• Eglurwyd bod hwn yn faes cymhleth gyda llawer o waith yn digwydd yn barod, e.e. hyfforddiant diogelu mandadol i lywodraethwyr.<br>• Her cael ysgolion i rannu data efo'r awdurdod ar adegau – cyhoeddi a rhannu o fewn ysgolion ond gwaith i'w wneud i goladu a rhannu hyn gyda'r llywodraethwyr a'r awdurdod. Gweithio efo TG i greu dangosfwrdd i lywodraethwyr i gynorthwyo efo hyn.<br>• Gwaith pellach i sicrhau agenda sefydlog mewn lle i gyrff llywodraethol sy'n cynnwys trafodaeth am lais y pletnyn a materion diogelu.<br>• 1 swyddog yn cefnogi llywodraethwyr ar draws y Sir. Yn edrych i ychwanegu i'r capasiti hwn.<br>• Cyfeirwyd at adolygiad byw sydd gan Llywodraeth Cymru yn mynd ymlaen – Gwynedd am gynnwys barn clir o'r effaith yng Ngwynedd.<br><br>*Sylwadau pellach-*<br>• NWJ – tua 1000 o lywodraethwyr ar draws Gwynedd ac ydi'n wir mai dim ond 1 swyddog sy'n cefnogi rhain i gyd? - GApRh nodi ydi, mwy nag un swyddog yn y tîm ond un swyddog sy'n cefnogi'r clercod ac i gefnogi llywodraethiant ysgolion. Arian gan Llywodraeth Cymru i helpu ariannu swydd ychwanegol yn symud ymlaen.<br>• NWJ - Cynghorwyr yn lwyodraethwyr hefyd yn aml ac yn ddylanwadol. Oes modd gweithio yn benodol ar hyfforddi nhw i arddel ymarfer gorau yn y cyrff yma? GApRh yn nodi bod nifer o gefndiroedd gwahanol yn lywodraethwyr a rolau didm yn gaeedig felly yn gorfod darparu hyfforddiant sy'n gyson i bawb fel bod pawb yn cael yr un sylfaen.<br><br>**Thema 5 – Arferion Cyfyngol**<br>***Swyddog Adrodd: Gwern Ap Rhisiart***<br>• Rhoddwyd trosolwg ar lafar o'r cynnydd, heriau a wynebir, risgiau/adnoddau a cherrig milltir allweddol.<br>• Darn o waith newydd wedi ei ychwanegu i'r Cynllun Ymateb. | | |

| | GWEITHREDIAD | GAN BWY | ERBYN PRYD |
|---|---|---|---|
| | • Polisi yn bodoli yn barod a prosesau sicrwydd ansawdd mewn lle er mwyn sicrhau bod hwn yn cael ei fabwysiadu o fewn ein ysgolion.<br>• Gwaith i adolygu'r polisi ymhellach a chael barn allanol ar hwn er mwyn asesu os oes gwersi pellach i'w dysgu ac addasiadau pellach angen eu cyfarch.<br>• *Dim sylwadau pellach*<br><br>**Thema 6 - Cynllunio Argyfwng ac Ymateb i Argyfwng**<br>***Swyddog Adrodd: Catrin Love***<br>• Rhoddwyd trosolwg ar lafar o'r cynnydd, heriau a wynebir, risgiau/adnoddau a cherrig milltir allweddol.<br>• Darn o waith newydd wedi ei ychwanegu i'r Cynllun Ymateb.<br>• Awdurdod efo cynlluniau argyfwng ond dim lens diogelu wedi bod yn rhan o hyni hyd at rwan. Angen adolygu holl drefniadau i wirio bod materion diogelu yn cael eu ymgorffori.<br>• Grwp Tasg wedi ei sefydlu i fynd i'r afael a hyn er mwyn rhoi cynllun gweithredu mewn lle i ymateb i'r argymhellion<br>• Edrych ar ymarferion da ymysg awdurodau eraill – nifer wedi ymateb yn dangos diddordeb i wybod mwy am gasgliadau hyn ac i gydweithio yn y dyfodol i greu un templed a chynllun strategol rhanbarthol. Amlygu'r angen i rannu gwybodaeth a gweithio efo partneriaid aml asiantaethol ar greu un dogfen strategol syml mae pawb yn ei deall.<br>• Gwaith sylweddol wedi hynny i godi ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad, hyfforddaint a mapio.<br><br>• *Sylwadau pellach-*<br>• SH- **Angen gwirio y dylai Ebrill 2026 gael ei newid i Ebrill 2027 yn y fersiwn saesneg.**<br><br>**Thema 7 – Ysgol Friars**<br>***Swyddog Adrodd: Margaret Davies***<br>• Cyhoeddiad wedi bod yn anodd gyda nifer o staff yn derbyn cefnogaeth gan yr Awdurdod dros y cyfnod hwnnw a'r gefnogaeth yn parhau. Parhau i edrych ar les disgyblion a phobl ifanc. | **CL** | |

| | GWEITHREDIAD | GAN BWY | ERBYN PRYD |
|---|---|---|---|
| | <ul><li>Falch o adrodd bod pob aelod staff wedi bod yn eu gwaith sy'n wahaniaeth mawr o'r amser yma llynedd lle roedd 17 i ffwrdd o'u gwaith. Llawer mwy o sefydlogrwydd i'r plant.</li><li>Llywodraethwyr yn edrych i gael mwy o gynrychiolaeth o'r gymuned gan bod hyn yn wendid yn bresennol</li><li>Swydd clerc llywodraethwyr yn anodd recriwtio – ar y 3ydd hysbyseb ar hyn o bryd</li><li>Angen ailwampio pellach ar y rhaglen waith er mwyn cyfarch elfennau sy'n yr AYP – gan gynnwys cynhwysiad plant ac ADY.</li><li>Heriau yn debyg i nifer o ysgolion eraill – llawer o newid o hyd ac edrych ar ormodedd posib gyda niferoedd disgyblion yn lleihau.</li><li>*Dim sylwadau pellach*</li></ul>**D. Rhaglen Waith Diwygiedig**<ul><li>Cyfeiriwyd at y rhaglen waith manwl er gwybodaeth</li><li>*Dim sylwadau pellach*</li></ul>**E. Mesurau**<ul><li>Cyfeiriwyd at y mesurau diwygiedig er gwybodaeth.<br>*Sylwadau pellach-*</li><li>SH - Eglurwyd bod gwaith pellach angen ei wneud ar rhain ac amserlen clir mewn lle.</li><li>NWJ – angen eglurder sut fydd rhain yn bwydo nol i drefniadau hunan arfarnu a mesur perfformiad y Cyngor yn gyffredinol, angen eu gweu mewn.</li><li>**Sicrhau bod sylw pellach yn cael ei roi i'r mesurau a nodi amserlen erbyn y cyfarfod nesaf.**</li></ul>**F. Cofrestr Risg / Risk Register**<ul><li>Cyfeiriwyd at y gofrestr risg ddiwygiedig gyda'r newidiadau wedi'i amlygu – yn bennaf ychwanegu sylw at effaith y risg a'u perchenog.<br>*Sylwadau pellach-*</li><li>NWJ – pwynt 6 - gwleidyddol, angen addasu'r geiriad gan ei bod yn gefnogol o ymchwiliad cyhoeddus ac wedi bod ers y cychwyn.</li><li>NWJ – pwynt 7 - enw da – diddordeb dwys y wasg yn fater i'w groesawu felly angen aralleirio hwn.</li></ul> | DG<br><br>EJ | |

| | GWEITHREDIAD | GAN BWY | ERBYN PRYD |
|---|---|---|---|
| | • **Sicrhau bod yr addasiadau i'r gofrestr risg wedi cael sylw erbyn y cyfarfod nesaf.** | | |
| **7.** | **Polisi Canu'r Gloch** | | |
| | • Cyflwynwyd y Polisi Canu'r Gloch diwygiedig<br>• Gofynnwyd am sylwadau'r Bwrdd ar y Polisi.<br>• Wedi cychwyn trafodaethau gyda'r Undebau Llafur sydd wedi croesawu y newidiadau.<br><br>*Sylwadau pellach-*<br>• NWJ – Angen eglurhad pwy all ganu'r gloch? Ydi hyn yn cynnwys llywodraethwyr a chynghorwyr? IJ - adrodd bod polisi mewn lle yn genedlaethol ar gyfer Llywodraethwyr ac wedi cymharu y polisi hwn ochr yn ochr a hwnnw. Dim angen i lywodraethwyr fabwysiadu un gwahanol ond angen sicrhau bod ysgolion yn mabwysiadu a chydymffurfio a hwnnw.<br>• NWJ - angen edrych ar amserlen cyflwyno trefn i aelodau fel mater o flaenoriaeth.<br>• SH – ydych chi yn gorfod adrodd ar nifer o bryderon canu'r gloch sy'n dod i mewn i'r awdurdod pob blwyddyn? IJ yn nodi nad yw'n sicr ond y byddai'n edrych mewn i hyn a hel y wybodaeth fel ymarfer da.<br>• SH - byddai'n dda cael enghreifftiau clir yn yr hyfforddiant / dogfennau atodol sut a lle gall bobl godi gwahanol mathau o bryderon (e.e. gwahaniaeth rhwng cwyn, cwyn cyflogaeth er enghraifft urddas/bwlio a canu'r gloch) amlygu beth yn gallu ei wneud dim yn unig beth methu ei wneud.<br>• **IJ cynnig edrych ar fesurydd yn cynnwys cydymffurfiaeth ysgolion gyda'r Polisi.**<br>• **IJ/IGE i edrych ymhellach i drefniadau cyffelyb i aelodau allu codi materion canu'r gloch a chynnig amserlen**<br>• **IJ i edrych mewn i adrodd ar wybodaeth pryderon canu'r gloch yn flynyddol fel ymarfer da.**<br>• **IJ i edrych ar astudiaethau achos/enghreifftiau fel rhan o'r hyfforddiant canu'r gloch a dogfennau atodol** | **IJ**<br><br>**IJ/IGE**<br><br>**IJ**<br><br>**IJ** | |
| **8.** | **Cynllun Cyfathrebu** | | |
| | • Cyflwynwyd cynllun cyfathrebu diwygiedig yn rhoi trosolwg o'r hyn ddysgwyd o'r cyhoeddiad AYP a'r cynlluniau yn edrych ymlaen. | | |

| | GWEITHREDIAD | GAN BWY | ERBYN PRYD |
|---|---|---|---|
| | • Cryn diddordeb yn y wasg yn y dyddiadau i ddilyn y cyhoeddiad – o leiaf 13 o adroddiadau wedi deillio o hyn.<br>• Cam nesaf – symud ymlaen i gyfnod newydd, adrodd ar gynnydd ac ymarfer da<br>• Nodi sylwadau o'r drafodaeth a'r angen i gyfathrebu mewn iaith syml. Meddwl am rhanddeiliaid a chynulleidfaoedd ehangach.<br>• Gofynnwyd am arweiniad o gwmpas amseru hyn?<br>*Sylwadau pellach:*<br>• MH – pryder ein bod yn araf, pethau ddim yn cael ei wneud felly yn bwysig cyfathrebu a dangos cynnydd cyn gynted a bo modd.<br>• SH – awgrym byddai rhywbeth cyn y pwyllgorau craffu yn syniad da<br>• DG – cytuno efo'r sylw am y brys, nifer o sylwadau yn y cyngor llawn wedi amlygu nad yw pawb yn gwybod beth sy'n mynd ymlaen.<br>• NWJ - Teitl yr adroddiad angen sylw "Cyfiawnder trwy ein dewrder" – pob dogfen angen defnyddio geiriau pwysig y plant yn symud ymlaen.<br>• **DG - i weithio efo SGW/SMJ ar gynllun cyfathrebu penodol ar fersiwn hawdd i'w ddeall o'r cynllun ymateb.** | **DG/SGW /SMJ** | |

**Cyfarfod nesaf:** 25ain o Chwefror, 9:30, Microsoft Teams

**Crynodeb: Pwyntiau Gweithredu – Cyfarfod BRhCY 08/12/2025**

| | Pwy | Gweithred - Materion Cyffredinol | Wedi gweithredu ☑☒ | Sylwadau pellach |
|---|---|---|---|---|
| | **Cylch Gorchwyl** | | | |
| **1.** | **SH/DG** | Trafodaeth tu allan i'r cyfarfod ar y posibilrwydd o wneud hyn a darparu gwybodaeth ar statws papurau (cyhoeddi) cyn y cyfarfod nesaf. | ☑ | Papurau cyhoeddus oni bai am eitemau eithriedig |
| **2.** | **SH/DG** | Gwahodd cynrychiolaeth o'r SARC i'r cyfarfod nesaf o'r Bwrdd i gael mewnbwn ar lais y dioddefwyr. | ☑ | |
| **3.** | **EJ** | Sylw i gynnwys y Cylch Gorchwyl yn cynnwys adolygu aelodaeth a nodir. | ☑ | |
| **4.** | **SH** | Sicrhau bod cynrychioli llais rhieni a teuluoedd (dioddefwyr) yn cael ei drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf. | | SH yn awgrymu bod hyn yn cael sylw ac yn cael ei ymgorffori yn y mesurau effaith |
| **5.** | **SH** | Sicrhau cylch adrodd ar adborth i ddioddefwyr sydd ddim eisiau cymryd rhan yn cael ei drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf. | | Cael mewnbwn SARC ar sut i wneud hyn mewn cyfarfod o'r Bwrdd i'r dyfodol. |
| **6.** | **EJ** | Ymestyn cyfarfodydd tu hwnt i pob 6 wythnos ac ymestyn hyd y cyfarfodydd. | ☑ | |
| **7.** | **SH** | Adolygu yn mater o hyd oes y Bwrdd mewn cyfarfodydd i'r dyfodol. | ☑ | Mater parhaus |
| **8.** | **DG** | Ystyried trefniadau cyfarfodydd arbennig (Craffu) tu hwnt i fis Ionawr. | ☑ | Adborth o'r fforymau craffu wedi rhoi sylw i adolygu ymhen 6 mis. |
| | **Cofnodion a Phwyntiau Gweithredu - 15092025 (materion yn cario drosodd)** | | | |
| **9.** | **TS** | *4. Cylch gorchwyl a sgôp i gael ei gylchredeg gan **TS** pan yn barod (Llywodraeth Cymru – Adolygu Gweithdrefnau Llywodraethiant ac Atebolrwydd).* | ☑ | Datganiad Ysgrifenedig: Adolygiad o gyrff llywodraethu ysgolion (21 Hydref 2025) \| LLYW.CYMRU |
| **10.** | **SWC** | ***10. SWC** i roi cyflwyniad ar sicrhau ansawdd mewn gwasanaethau mewn cyfarfod yn y dyfodol. Dylai hyn gynnwys:* | ☑ | SWC i arwain ar hyn yn hytrach na DO |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | *sut i gefnogi drwy ein systemau, dysgu o brosesau, mapio – enghreifftiau penodol. Bydd hyn yn digwydd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.* | | |
| **11.** | **GApRh** | ***11. GApRh** i sicrhau bod Cadeirydd y Llywodraethwyr yn derbyn copi o adroddiadau ymweliadau monitro diogelu, yn hytrach na'r Pennaeth yn unig.* | ☑ | Bwriad cyflwyno'r drefn newydd yn y cylch nesaf – sicrwydd bod y Pennaeth yn rhannu gyda'r llywodraethwyr<br><br>Trafodwyd hyn ymhellach a penderfynwyd y byddai cyfarwyddyd yn cael ei rhoi i'r Pennaeth i rannu yr adroddiad gyda'r Cadeirydd. Bydd cymal yn cael ei hychwanegu i ddiwedd yr adroddiad yn amlygu yr angen i gael ei gyflwyno i'r Corff Llawn. Bydd angen cyfnod o ddilysu cywirdeb yr adroddiad cyn cael copi terfynol yn ogystal, nid yw manylion cadeiryddion yn wybodus i'r Gwasanaeth tan diwedd Hydref nes i Ysgolion fod wedi sefydlu y Corff am y flwyddyn. |
| **12.** | **GApRh** | ***12. GApRh** i gasglu arferion diogelu da ar draws ysgolion a thu hwnt, yn dilyn ymweliadau monitro diogelu.* | ☑ | Ar waith - cyflwyno'r drefn newydd diwedd y tymor |
| | **Diweddariad – Rhaglen Waith** | | | |
| **13.** | **FMJ/Pawb** | Gofynnwyd am sylwadau aelodau'r bwrdd erbyn diwedd yr wythnos er mwyn eu ymgorffori cyn mynd i Craffu arbennig. | ☑ | |
| **14.** | **FMJ/SMJ/SGW** | FMJ/SGW/SMJ i ystyried y cynnigion o addasiadau i'r Cynllun Ymateb ac unrhyw fersiynau hawdd i'w darllen. | ☑ | Deunyddiau gwefan (syml) a Cynllun Ymateb hawdd i'w ddarllen yn y broses o'i ddatblygu. |
| **15.** | **DO** | DO i ystyried a yw y cyfnod awdit ar atgyfeiriadau rhan 5 hanesyddol dros gyfnod o 2 flynedd yn ddigonol neu a ddylid mynd yn ôl ymhellach | ☑ | Estynnwyd archwiliad o atgyfeiriadau Rhan 5 dyblyg/ailadroddus i gwmpasu 5 mlynedd (yn ôl i 2020). Canfuwyd bod 4 unigolyn mewn swydd o |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ymddiriedaeth wedi cael eu hatgyfeirio fwy nag unwaith yn ystod y cyfnod ychwanegol a archwiliwyd. Mae'r 4 hyn bellach yn cael eu hadolygu gan y LADO a'r tîm er mwyn sicrhau'r gwasanaeth nad oes unrhyw thema na thebygrwydd rhyngddynt y gellid bod wedi'u hystyried yn 'faneri coch'. |
| **16.** | **EJ** | Angen rhoi sylw i'r cyfeirnod wrth cyfeirio at amserlen yn yr adroddiad cynnydd, e.e. "CPR-1" neu fel arall angen croes-gyfeirio. | ☑ | |
| **17.** | **GApRh** | GApRh i gynnig cyfarfod gyda'r 4 unigolyn (bechgyn) i gynnig ymddiheuriad ar ran y Cyngor a sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth mae nhw eu angen. | ☑ | O ran y pedwar bachgen lle mae eu profiad o gael ei ffrwyno gan NF wedi ei amlygu yn yr adroddiad mae'r Pennaeth Addysg wedi ysgrifennu yn bersonol atynt yn cynnig ymddiheuriad, cyfarfod wyneb yn wyneb ac unrhyw gefnogaeth y maent yn dymuno ei dderbyn. Un rhiant wedi cysylltu yn ôl hyd yma. |
| **18.** | **NWJ/DO** | NWJ a DO i godi materion polisi Pryderon Lefel Isel a rhaglen ymateb y Llywodraeth i argymhellion cenedlaethol yr AYP yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Sicrwydd Gweinidogol. | ☑ | |
| **19.** | **SH** | SH – yn cynnig gwirio efo Jan Pickles o amgylch y polisi "grooming"/finklehor model am gyngor pellach ar ddarpariaeth hyfforddiant posib. | ☑ | |
| **20.** | **CL** | Angen gwirio y dylai Ebrill 2026 gael ei newid i Ebrill 2027 yn y fersiwn saesneg. | ☑ | |
| **21.** | **DG** | Sicrhau bod sylw pellach yn cael ei roi i'r mesurau a nodi amserlen erbyn y cyfarfod nesaf. | ☑ | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **22.** | **EJ** | Sicrhau bod yr addasiadau i'r gofrestr risg wedi cael sylw erbyn y cyfarfod nesaf. | ☑ | Fersiwn wedi ei ddiwygio yn atodol i ddogfennau'r Bwrdd |
| | **Polisi Canu'r Gloch** | | | |
| **23.** | **IJ** | IJ cynnig edrych ar fesurydd yn cynnwys cydymffurfiaeth ysgolion gyda'r Polisi. | | Adran Addysg i gynnwys archwiliad rheolaidd o fabwysiadu polisïau fesul ysgol fel rhan o adolygiadau diogelu ehangach |
| **24.** | **IJ/IGE** | IJ/IGE i edrych ymhellach i drefniadau cyffelyb i aelodau allu codi materion canu'r gloch a chynnig amserlen. | | Nid yw trefniadau canu'r gloch tebyg ar gyfer aelodau yn ganiataol o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Fodd bynnag, mae gwaith yn cael ei wneud ar ddatblygu proses i Aelodau godi pryderon. |
| **25.** | **IJ** | IJ i edrych mewn i adrodd ar wybodaeth pryderon canu'r gloch yn flynyddol fel ymarfer da. | ☑ | Ar waith – aros am gyngor cwmni PROTECT |
| **26.** | **IJ** | IJ i edrych ar astudiaethau achos/enghreifftiau fel rhan o'r hyfforddiant canu'r gloch a dogfennau atodol | | Mae cyfarfodydd rheolaidd gyda Protect ar waith ac mae ceisiadau am astudiaethau achos allanol wedi'u gwneud. Bydd y rhain yn cael eu hintegreiddio i'r modiwl hyfforddi sy'n cael ei ddatblygu. |
| | **Cynllun Cyfathrebu** | | | |
| **27.** | **DG** | DG - i weithio efo SGW/SMJ ar gynllun cyfathrebu penodol ar fersiwn hawdd i'w ddeall o'r cynllun ymateb. | ☑ | Wedi ei drosglwyddo mewn i adroddiadau thema |

# *Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder - Cynllun Ymateb Cyngor Gwynedd*

## *Adroddiad Cynnydd*

***25.02.2026***

| **Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr**<br>***Swyddog Adrodd: Gwern ap Rhisiart*** | |
|---|---|
| **1. Nod Thema:** | • Sicrhau y gwrandewir ar blant, a'u bod yn cael eu credu a'u cymryd o ddifri.<br>• Rhoi llais i blant a phobl ifanc mewn prosesau sydd wedi'u cynllunio i'w cadw'n ddiogel.<br>• Gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r dioddefwyr a'r goroeswyr. |
| **2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:** | Gofynnwn i'r Bwrdd;<br>- Herio a chraffu ar gynnydd<br>- Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf. |
| **3. Cynnydd hyd yma:** | • Trafodaeth gychwynnol wedi bod ar lunio cynllun gweithredu ymarferol sy'n nodi blaenoriaethau, cyfrifoldebau ac amserlenni clir ar gyfer ymgorffori diwylliant sy'n canolbwyntio ar blant ar draws pob gwasanaeth **– erbyn Ebrill 2026.** Mae'r drafodaeth wedi arwain at y bwriad o gyflwyno Strategaeth Llais Plant a Phobl Ifanc mewn ymgais i ddal popeth mewn un cynllun cydlynus.<br>• Bydd y Strategaeth yn amlygu **5 prif beth**;<br>    ○ Llais Plant a Phobl Ifanc yn y drefn ddiogelu<br>    ○ Llais Plant a Phobl Ifanc mewn addysg<br>    ○ Llais Plant a Phobl Ifanc ar draws Gwasanaethau'r Cyngor<br>    ○ Dylanwad ar Brosesau Corfforaethol<br>    ○ Effaith<br>• Strategaeth drafft wedi ei llunio a thrafodaeth gyda'r Fforwm Ieuenctid wedi eu trefnu i sicrhau llais plant a phobl ifanc yn y strategaeth ei hun.<br>• Gwasanaeth Plant wedi cyflwyno drafft cychwynnol o bolisi llais y plentyn<br>• Yr Adran Addysg wedi cychwyn ar waith i lunio arweiniad or arfer gorau un o ran llais y dysgwr o fewn addysg gan dynnu ar arweiniad ac arferion gorau yn genedlaethol.<br>• Gweithdy gyda Sally Holland a thîm Comisiynydd Plant wedi ei gynnal gyda cynrychiolaeth o Fforwm Ieuenctid, phenaethiaid gwasanaeth, aelodau'r Cabinet a chynrychiolaeth o bwyllgorau craffu yn bresennol.<br>• Mae pob ysgol gynradd yn defnyddio system gofnodi electroneg bellach i nodi digwyddiadau o bryder gyda y |

| | |
|---|---|
| | rhai nad oedd a system (5 ysgol fychan) bellach yn defnyddio Bromcom.<br>• Gwaith trawsadrannol wedi ei wneud i adnabod hyfforddiant priodol yn y maes "Grooming" ar gyfer staff y Cyngor ac ysgolion. Mae panel traws adrannol wedi ystyried pecynnau gan ddau ddarparwr cenedlaethol.<br>• Cyswllt wedi ei wneud efo'r bechgyn a oedd wedi eu hadnabod yr adroddiad fel dioddefwyr. Cymorth wedi ei gynnig iddynt. |
| **4. Heriau a wynebwyd:** | • Cryn dipyn yn mynd ymlaen, ac oherwydd hyn mae risg i ni fod yn dyblygu gwaith. Llunio Strategaeth yn mynd i sicrhau cydlynnedd a chysondeb. Ffocws hefyd ar effaith fel nad ydym yn gwneud pethau heb ystyried effaith o'r cychwyn cyntaf.<br>• Dymuniad i ni fod yn symud i fod yn Awdurdod Plentyn Gyfeillgar. Mae hwn Bellach wedi ei ddatgysylltu o'r themâu yma ond yn mynd ymlaen dan arweiniad Gwasanaethau Plant. |
| **5. Camau nesaf / cerrig milltir allweddol:** | • Mae'r bwriad i ddatblygu siarter ar wrando ar lais y plentyn a fersiynau plentyn gyfeillgar o'r strategaeth gyda'r dyddiad cwblhau **erbyn Ebrill 2026.**.<br>• Gweithredu hyfforddiant i staff i adnabod a dogfennu newidiadau ymddygiadol mewn plant a allai fod yn arwydd o feithrin perthnasoedd amhriodol neu gam-drin – **erbyn mis Mawrth 2026.**<br>• Cefnogi dioddefwyr trawma a theilwra cymorth i gyfateb ag anghenion yr unigolyn – **Parhaus**<br>• Cyflwyno system Bromcom newydd ar draws holl ysgolion Gwynedd, ochr yn ochr ag ymgyrch hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth – **erbyn Medi 2027**<br>• Cynnwys Fforwm Ieuenctid y Sir a cheisio cymeradwyaeth o ran cynnwys ein Strategaeth Llais Plant a Phobl Ifanc – **Mawrth 2026** |
| **6. Risgiau / Adnoddau:** | **Adnoddau:**<br>• Sicrhau fod modd i ni glywed llais a barn carfannau penodol o blant a phobl ifanc sydd yn anoddach ei clywed. Wedi cael adnodd newydd i fod yn targedu'r gwaith yma.<br>• **Aros am arweiniad pellach**:<br>• Arweiniad rhanbarthol a chenedlaethol ar hyfforddiant "grooming" |
| **7. Ystyriaethau Cyfathrebu** | • |
| **8. Amserlenni:** | (see table below) |

| | | |
|---|---|---|
| CPR – 1 **(1)** | Gwrando ar lais y plentyn | Ebrill 2026 |
| CPR – 2 **(2)** | Systemau / mesurau / adrodd – llais y plentyn | Ebrill 2026 |
| CPR – 3 **(3)** | Hyfforddiant – adnabod newid mewn ymddygiad | Mawrth 2026 |
| CPR – 4 **(4)** | Cofnodi – newid mewn ymddygiad | Medi 2027 |
| CPR – 6 **(5)** | Siarad efo'r plentyn – Rhan 5 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | CPR – 7 **(6)** | Cyswllt tu allan i'r ysgol (adrodd pryder) | Ionawr 2026 |
| | CPR – 8 **(7)** | Newidiadau cwricwlwm | Medi 2026 |
| | CPR – 9 **(8)**<br>RP - A4<br>RP - A1 | Cefnogi dioddefwyr | Parhaus |
| | RP- A5 **(9)** | Hawliadau iawndal | Parhaus |
| | NEWYDD – 1 **(10)** | Gwreiddio diwylliant o wrando ar lais a phrofiadau plant/pobl ifanc | Mawrth 2026 |

| **Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon am Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant**<br>***Swyddog Adrodd: Dylan Owen*** | |
|---|---|
| **1. Nod Thema:** | • Amddiffyn plant trwy sicrhau bod pryderon yn cael eu cymryd o ddifri ac yn gweithredu arnynt yn gyflym.<br>• Sicrhau bod trefniadau Adran 5 yn cefnogi ymateb aml-asiantaeth cyson a chadarn i honiadau a phryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant. |
| **2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:** | Gofynnwn i'r Bwrdd:<br>- Herio a chraffu ar gynnydd<br>- Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.<br>Canllawiau penodol:<br>• Amlygu risg o ran siarad â pob plentyn sy'n destun cyfeiriad Rh5.<br>• Sicrhau cytundeb ar y penderfyniad ynghylch y gwaith ar Bolisïau Pryderon Lefel Isel (Rhif 14).<br>• Tynnu sylw at y ffaith bod rhai o'r argymhellion yn y rhaglen waith wedi'u huno, gan eu bod yn rhan o'r gwaith sicrwydd ansawdd a rhaglen awdit yr Adran Plant.<br>• Tynnu sylw hefyd at y ffaith bod argymhellion sy'n deillio o adroddiad ESTYN / AGC (Tachwedd 2025) wedi'u hychwanegu at y rhaglen waith. |

| | |
|---|---|
| **3. Cynnydd hyd yma:** | Cyfeiriadau Rhan 5:<br>• Addaswyd y templedi trafodaeth a chyfarfodydd strategaeth ac maent yn cael eu defnyddio i sicrhau bod gwybodaeth ddiogelu flaenorol yn cael ei wirio.<br>• Mae gweithiwr cymdeithasol yn siarad gyda pob un plentyn sy'n destun Rhan 5.<br>• Nid yw penderfyniadau trothwy yn cael eu gwneud gan un person yn unig (Arweinydd Tîm Derbyn, LADO a/neu DOS pob tro).<br>• Amlygwyd y ffurflen gyfeirio ar gyfer oedolion proffesiynol ar y wefan. Gellir weld yma: Cam-drin plant. Rydym wedi gofyn am y trefniadau a'r amserlen ar gyfer y newidiadau cenedlaethol arfaethedig i'r ffurflen gyfeirio. Mae cynlluniau hefyd i edrych sut gall MOSAIC gefnogi creu ffurflen ddigidol pan ddaw'r system yn fyw yn yr hydref.<br>• Mae penderfyniad wedi ei wneud i dreialu'r defnydd o Magic Notes yn ystod y cyfarfodydd strategaeth. Peilota i ddechrau yn y mis nesaf ar ôl cadarnhau gyda'r cwmni.<br><br>Tîm Diogelu a Llesiant Ysgolion<br>• Defnyddiwyd Arian Llywodraeth Cymru i recriwtio a phenodi swyddog ychwanegol i'r tîm diogelu. Mae'r swyddog yn cychwyn cyn diwedd mis Chwefror.<br><br>Fframwaith Sicrwydd Ansawdd<br>• Paratowyd a cyflwynwyd ddrafft cychwynnol o'r Fframwaith i'r Grŵp Sicrwydd Gweinidogol.<br>• Bwriad yw cyflwyno'r drafft i'r cyfarfod Bwrdd ar 25.2.26. |
| **4. Heriau a wynebwyd:** | Siarad efo Plentyn sy'n destun Cyfeiriad Rh5<br>Mae rhai rhieni yn teimlo'n anghyfforddus iawn gyda gweithiwr cymdeithasol yn siarad â'u plentyn ac, o ganlyniad, yn gwrthod caniatâd. Cofnodir cwynion o'r fath ac byddent yn cael eu monitro'n barhaus. Mae trafodaethau cychwynnol hefyd wedi'u cynnal gydag arbenigwr cyfreithiol er mwyn adolygu hawliau rhieni a phlant yn unol â gweithdrefnau diogelu.<br><br>Polisi Pryderon Lefel Isel.<br>Yn dilyn y Cyfarfod Bwrdd Ymateb diwethaf a'r angen am arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar y mater "Polisi Pryderon Lefel Isel", rydym bellach wedi derbyn cadarnhad: *Fod y Llywodraeth yn rhoi ystyriaeth gyflwyno Polisi Pryderon ynghylch Ymddygiad Oedolion (yn debyg i Bolisi Pryderon Lefel Isel Lloegr) mewn ysgolion, fel rhan o'r gwaith i adolygu'r canllawiau ar weithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol. Bydd hyn yn cael ei wneud ochr yn ochr â Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, y bwriad yw ymgynghori arno yn dilyn etholiadau'r Senedd.*<br><br>**Yn ystod cyfarfod o Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y 4ydd Chwefror aethpwyd drwy'r opsiynau y gellir ei ystyried wneud yn fewnol.** |

| | |
|---|---|
| | O ran creu Polisi Pryderon Lefel Isel, yn sgil cadarnhad gan Llywodraeth Cymru o'u bwriadau ni fydd y Cyngor yn gweithredu nac yn bwrw ymlaen â threfniadau newydd hyd nes y caiff yr arweiniad perthnasol ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.<br><br>O ran ail-edrych ar y rhestr ganolog mewnol:<br>• Bydd y Gwasanaeth TG (drwy Bennaeth Gwasanaethau Corfforaethol) yn gwneud trefniadau i roi mynediad i'r Swyddog Diogelu Adran Plant ar yr enwau sydd ar y bas-data staff presennol, nad yw wedi cael ei ddefnyddio ers cyfnod COVID. Gan nad yw'r rhestr hon yn cael ei defnyddio ar gyfer unrhyw ddibenion gwirio, nid oes sail dros gadw'r data.<br>• Bydd y Swyddog Diogelu Adran Plant yn gwirio ac yn croesgyfeirio'r cofnodion unigol sydd ar y rhestr er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei throsglwyddo i WCCIS. Bydd hefyd yn gwirio a oes unrhyw gofnodion diogelu perthnasol sy'n ymwneud â'r Adran Oedolion, a bydd y rhain yn cael eu pasio ymlaen at y tîm priodol yn ôl yr angen.<br>• Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn o bryd yn paratoi trosglwyddo i system dal data newydd (MOSAIC), bydd yn galluogi i ni weld yn syth os oes honiadau/cyfeiriadau blaenorol a gwirio hynny yn erbyn enw a manylion person.<br>• Gyda dwy system newydd yn cael eu cyflwyno (MOSAIC a'r system Adnoddau Dynol newydd), mae'n bosib y daw datrysiadau pellach o ran fflagio materion, awtomeiddio a rheoli achosion. Bydd y trafodaethau hynny'n parhau i gael eu cynnal rhwng Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol, Swyddog Diogelu Adran Plant a'r Gwasanaeth TG.<br>• O ran pryderon anffurfiol, y dull a ffafrir fydd dod â phob pryder i mewn i broses ffurfiol. Yn hytrach na chynnal trafodaethau anffurfiol, bydd pob pryder, gan gynnwys pryderon lefel isel, yn cael ei gofnodi ar system MOSAIC newydd er mwyn sicrhau bod cofnod clir ar gael. Gall systemau megis Magic Notes hefyd gynorthwyo i symleiddio'r broses hon.<br>• Bydd y Swyddog Diogelu Data hefyd yn edrych ar y canllaw grëwyd n ôl yn 2013 o ran diffinio pryderon.<br><br>**Penderfyniad felly yw gofyn am gytundeb y Bwrdd i gau'r argymhelliad yn ffurfiol hyd nes bydd datblygiadau system / technoleg yn ei le (Hydref 2026).** |
| **5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:** | • Mawrth/Ebrill – Penodi Swyddog DOS/Sicrwydd Ansawdd<br>• Hydref –Trosglwyddo i system MOSAIC |
| **6. Risgiau / Adnoddau:** | **Adnoddau:**<br>• Bid corfforaethol eisoes wedi ei gyflwyno er mwyn gweithredu'r argymhellion yn Thema 2.<br><br>**Risg:**<br>Risg Recriwtio |

| | |
|---|---|
| | • Cyflwynwyd fid corfforaethol ar gyfer sawl swydd newydd er mwyn cynyddu capasiti yn Adran Plant. Gan fod recriwtio ar gyfer swyddi gwaith cymdeithasol yn heriol o fewn yr amgylchedd presennol, mae'n bosib y bydd angen ystyried dulliau amgen i lenwi'r rolau a phenderfynu ar ffyrdd creadigol o recriwtio. |
| 7. **Ystyriaethau Cyfathrebu** | • Gwerthfawrogir unrhyw gefnogaeth ar gyfer recriwtio a chodi ymwybyddiaeth o'r swyddi newydd. |
| 8. **Amserlenni:** | |

| | | |
|---|---|---|
| CPR –11 **(11)** | Gwrando ar lais y plentyn | Wedi gwblhau - monitro |
| CPR – 14 **(12)** | BDRh yn craffu – rheoli honiadau | I'w gadarnhau – Bwrdd Diogelu Rhanbarthol |
| RP- B5 **(13)** | Arolygiadau Estyn – trefniadau diogelu | Wedi gwblhau - monitro |
| CPR - 15<br>RP- C2<br>RP - C2a<br>**(14)** | Pryderon Lefel Isel | Hyd 25 – Ebrill 26 |
| CPR – 12 **(15)** | Penderfyniadau mewn ymgynghoriad | I'w gadarnhau – rhywfaint o oedi o ran cysylltiad gyda'r Heddlu |
| CPR – 5 **(16)** | Ystyried gwybodaeth diogelu ar gofnod y plentyn wrth asesu risg | Wedi gwblhau – angen rhoi trefniadau monitor yn ei le |
| NEW- 2<br>NEW - 3<br>**(17)** | Trefniadau gweithredu Rhan 5 | Parhaus – penodi swydd Mawrth / Ebrill |
| NEW- 4 **(18)** | Ffurflen gyfeirio Rhan 5 | Tymor byr amlygu'r ffurflen – wedi gwblhau<br>Tymor hir – ffurflen ddigidol – Hydref 2026 ymlaen |
| NEW- 5 **(19)** | Diwylliant tryloyw ac agored o drîn ac atgyfeiriadau | Parhaus |
| CPR – 10 **(20)** | Gwersi i ddysgu / Rhan 5 – Llywodraeth Cymru | I'w gadarnhau – aros am gopi gan LlC |
| CPR 16 **(21)** | Strategaeth 10 mlynedd – Llywodraeth Cymru | Dechrau Mawrth 2026 |
| RP- B2 **(22)** | Sefydlu Gwasanaeth Diogelu a Llesiant Ysgolion | Parhaus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | NEW- 8 **(23)** | Gwella perthynas gyda ysgolion - trefn cyfeiriadau | Parhaus |
| | NEW- 9 **(24)** | Cyfathrebu rhwng adrannau plant/addysg | Parhaus |
| | NEW- 10 **(25)** | Cofnodi Trafodaethau Strategaeth | Peilot Magic Notes – Mawrth 2026<br>Penodi swydd Mawrth / Ebrill |

| **Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau**<br>***Swyddog Adrodd: Ian Jones*** | |
|---|---|
| **1. Nod Thema:** | • Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi i "feddwl yr hyn na ellir ei amgyffred" a deall "y gallai ddigwydd yma". |
| **2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:** | - Gofynnwn i'r Bwrdd<br>o Herio a chraffu ar gynnydd<br>o Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf. |
| **3. Cynnydd hyd yma:** | **Canu'r Gloch**<br>• Bu i'r Cabinet gymeradwyo'r Polisi Canu'r Gloch ar gyfer Staff yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr. Bydd y polisi yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol fel rhan o Gyfansoddiad y Cyngor gan y Cyngor Llawn ym mis Mawrth, 2026. Bu i'r Cabinet ofyn am waith brys o ran datblygu polisi cyffelyb ar gyfer Aelodau yn ogystal ac mae'r gwaith hynny wedi cychwyn.<br>• Yn sgil y penderfyniad hwn, byddwn yn symud ymlaen i gyflwyno rhaglen waith drafft ar gyfer cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth ymysg holl staff y Cyngor o gynnwys y Polisi. Byddwn yn cyflwyno'r rhaglen waith i'r Grŵp Tasg Canu'r Gloch yn ei gyfarfod nesaf.<br>• Mae pob ysgol wedi derbyn cais i fabwysiadu Polisi Canu'r Gloch a ddarperir gan Llywodraeth Cymru a byddwn yn monitro hynny i'r dyfodol.<br>**Hyfforddiant Diogelu**<br>• Cwblhawyd Archwiliad Mewnol ar drefniadau Hyfforddiant Mandadol o fewn y Cyngor a bydd camau gweithredu'r adroddiad hwnnw yn cael ei fabwysiadu gan y Grwp Tasg.<br>• Mae gwaith o ddadansoddi anghenion hyfforddiant y gwahanol carfannau staff o ran Diogelu ar waith.<br>• Mae gwaith ar ddatblygu cyfres o glipiau fideo wedi cychwyn er mwyn cynorthwyo gyda'r dasg o gyrraedd pob carfan o staff gyda negeseuon priodol. Mae'r gwaith hynny wedi gynnwys gwneud cyswllt gyda nifer o gynghorau a sefydliadau eraill yn y sector gyhoeddus ar draws Cymru er mwyn adnabod ymarfer da. |

<table>
<tr><td></td><td>

- Mae'r canran o staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant mandadol yn 75.7% ar hyn o bryd.

**Ymchwiliad Craffu**

- Llithriad yn yr amserlen ond disgwylir adroddiad terfynol yn y dyfodol agos.

</td></tr>
<tr><td>4. Heriau a wynebwyd:</td><td>

- Cais gan y Cabinet ar gyfer datblygu trefn cyffelyb ar gyfer Canu'r Gloch o ran Aelodau yn debygol o gael effaith tymor byr ar rhaglen waith y Grwp Tasg.
- Mynediad i systemau TG ar gyfer staff rheng flaen yn parhau i fod yn her benodol.

</td></tr>
<tr><td>5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:</td><td>

- Mabwysiadu Polisi Canu'r Gloch diwygiedig – Cabinet (**Ionawr 26**), Cyngor Llawn (**Mawrth 26**) a gweithredu'r polisi (**Ebrill 26**)
- Cynllun cyfathrebu clir ar gyfer holl staff y Cyngor, gan sicrhau ei fod yn diwallu anghenion timau rheng flaen – **Mawrth, 2026.**
- Is-grŵp i ddatblygu a chynhyrchu offer ymarferol i atgyfnerthu a hyrwyddo pwysigrwydd hyfforddiant diogelu ar draws y Cyngor – **Chwefror, 2026**
- Ychwanegu hyfforddiant cadw cofnodion diogelu ychwanegol i'r e-fodiwl presennol gyda chytundeb SCW - **Wedi ei gwblhau.**
- Adroddiad Ymchwiliad Craffu (Trefniadau Diogelu) - **Chwefror 2026**
- Adolygiad pellach o'r Polisi Diogelu Corfforaethol – **Ebrill 2026**

</td></tr>
<tr><td>6. Risgiau / Adnoddau:</td><td>

**Adnoddau**

- Penodiad Rheolwr y Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol i swydd gyda Chyngor arall am gael effaith tymor byr ar yr adnoddau sydd ar gael i'r Grwp Tasg Canu'r Gloch. Proses recriwtio a phenodi wedi cychwyn a disgwylir penodi rheolwr newydd ym mis Chwefror.

</td></tr>
<tr><td>7. Ystyriaethau Cyfathrebu:</td><td>

- 

</td></tr>
<tr><td>8. Amserlenni:</td><td>

| | | |
|---|---|---|
| CPR – 17 **(29)** | Adolygiad LlC (Hyfforddiant) | I'w gadarnhau gan LlC |
| CPR – 18 **(30)** | Hyfforddiant "grooming" | I'w gadarnhau |
| CPR – 19 **(31)** | Sicrwydd i'r Bwrdd Diogelu o'r uchod | I'w gadarnhau (gweler CPR-18) |
| CPR – 20 **(32)** | Polisi Canu'r Gloch | Ebrill 2026 |
| CPR –13 **(33)** | Hyfforddiant/goruchwyliaeth Swyddogion LADO | i'w gadarnhau |
| CPR – 24 **(34)** | UDD/Goruchwyliaeth gan weithwyr cymdeithasol | i'w gadarnhau |
| RP- C2 **(35)** | Hyfforddiant cadw cofnodion diogelu | Rhagfyr 2025 |
| RP- B1b **(36)** | Hyfforddiant diogelu/VAWDASV adrannol | Parhaus |

</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | RP- B2 **(37)** | Pecyn hyfforddiant diogelu ysgolion | Cwblhau |
| | RP- C2d **(38)** | Hyfforddiant diogelu gorfodol – penderfyniadau diogelu | Parhaus |
| | NEWYDD-11 **(39)** | Hyfforddiant diogelu "uwch" | i'w gadarnhau |
| | RP- B1 **(40)** | Adolygu Polisi Diogelu | Ebrill 2026 |
| | RP- B2 **(41)** | Adolygu Polisi Diogelu (Ysgolion) | i'w gadarnhau |
| | RP- B1a **(42)** | Archwiliad mewnol – trefniadau diogelu | Mehefin 2026 |
| | RP- B1c **(43)** | Monitro cydymffurfiaeth DBS | Cwblhau |
| | RP- B5 **(44)** | Monitro trefniadau diogelu ysgolion | Cwblhau |
| | RP- B6 **(45)** | Ymchwiliad craffu - diogelu | Rhagfyr 2025 |

| **Thema 4 - Llywodraethu**<br>***Swyddog Adrodd: Alison Halliday*** | |
|---|---|
| **1. Nod Thema:** | • Sicrhau bod llywodraethwyr ysgolion yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau neu gadw plant yn ddiogel<br>• Sicrhau bod systemau yn eu lle sy'n mesur iechyd a diwylliant ehangach ysgolion |
| **2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:** | Gofynnwn i'r Bwrdd;<br>- Herio a chraffu ar gynnydd<br>- Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.<br>Canllawiau penodol:<br>- Mae amserlenni yn risg ar hyn o bryd – rhagwelir y bydd adolygiad Llywodraeth Cymru yn cymryd rhwng 6 a 9 mis. A allwn ni symud ymlaen yn gynt gyda rhai o'r argymhellion? Sut? |
| **3. Cynnydd hyd yma:** | • Hyfforddiant diogelu gorfodol yn ei le ar gyfer pob Cadeirydd a Llywodraethwr Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn ysgolion.<br>• Ei gwneud hi'n orfodol i Lywodraethwyr gwblhau hyfforddiant diogelu sylfaenol<br>• Llawlyfr llywodraethwr newydd wedi'i rannu gyda'r holl lywodraethwyr ac ar Wefan Gwynedd<br>• Dechrau coladu gwybodaeth i asesu sefyllfa'r ysgol gan gynnwys iechyd a diwylliant ehangach<br>• Cyfarfodydd gyda awdurdodau cyfagos i adnabod arferion gorau o ran clecio a threfniadaeth llywodraethiant effeithiol ac effeithlon.<br>• Ymchwilio i ddangos fwrdd i ddal holl wybodaeth a data llywodraethu mewn un man hwylus a hylaw. |
| **4. Heriau a wynebwyd:** | • Dibyniaethau - yn aros am arweiniad pellach gan LlC yn dilyn ei adolygiad o drefniadau llywodraethu o fewn ysgolion |

| | |
|---|---|
| **5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:** | • Grymuso trefn llywodraethiant ein hysgolion drwy sicrhau bod pob Corff Llywodraethol yn derbyn cefnogaeth glercio broffesiynol o ansawdd.<br>Ystyried cynnal peilot clerc proffesiynol ar gyfer yr ysgolion hynny sydd heb glerc erbyn **Mawrth 2026.**<br>• Adolygu a diwygio rhaglen hyfforddiant ar gyfer Cadeiryddion a Chyrff Llywodraethol er mwyn ymateb i anghenion cyfredol . Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant megis 'grooming ' a rhagfarn diarwybod yn unol a'r gofyn lleol.<br>• Sicrhau hyfforddiant i benaethiaid ar hanfodion llywodraethiant effeithiol gyda ffocws barhaus ar ddatblygu rôl y corff fel Cyfaill Beirniadol gan sefydlu diwylliant o onestrwydd a thryloywder fel themâu canolog.<br>Rhaglen Arweinwyr y Dyfodol / darpar Benaethiaid wedi derbyn cyflwyniad **Ionawr 2026.**<br>Rhaglen Penaethiaid Newydd i'w chyflwyno erbyn **Mawrth 2026.**<br>• Adran Addysg i ddatblygu a chylchredeg agenda / rhaglen sefydlog ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion Gwynedd, a fydd yn canolbwyntio ar faterion diogelu a llesiant , ynghyd â darparu'r data priodol i'w helpu i asesu sefyllfa'r ysgolion erbyn **Mawrth 2026.**<br>Bydd y gwaith o adolygu a diwygio rhaglenni cyfarfodydd wedi ei gwblhau erbyn **Ionawr 2026.**<br>Hyfforddiant i Glercod a threfn newydd yn weithredol erbyn **Mawrth 2026.**<br>• Ymateb a gweithredu'n brydlon i holl argymhellion Adolygiad Llywodraeth Cymru o drefniadau llywodraethu mewn ysgolion yng Nghymru – **amserlen i'w bennu yn unol â'r adolygiad**<br>• Penodi swyddog cefnogaeth llywodraethu ychwanegol i gefnogi ysgolion gyda holl agweddau llywodraethiant a chwynion erbyn **Ebrill 2026.**<br>Swydd-ddisgrifiad a manyleb person wedi ei gadarnhau **Ionawr 2026.** |
| **6. Risgiau / Adnoddau:** | • **Adnoddau:** RP-Ch7 (51)- Bydd angen swyddog ychwanegol arnom i gefnogi 94 o gyrff llywodraethu. Ar hyn o bryd mae gennym un swyddog. Rydym wedi derbyn grant gan LlC a fydd yn caniatáu i ni benodi swyddog ychwanegol.<br>• **Adnoddau:** CPR-22 (47) - Bydd angen adnoddau arnom i greu dangosfwrdd a fyddai'n hwyluso casglu data o'r fath.<br>• **Adnoddau:** (46.10) Bydd angen adnoddau ychwanegol i sefydlu model clercio proffesiynol. |
| **7. Ystyriaethau Cyfathrebu:** | • |
| **8. Amserlenni:** | |

| | | |
|---|---|---|
| CPR – 21 **(46)** | Cyfrifoldebau Llywodraethwyr | i'w gadarnhau gan LlC |
| CPR – 22 **(47)** | Dangosfwrdd | i'w gadarnhau gan LlC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | CPR – 23 **(48)** | Cofnodion cywir | Mai 2026 |
| | NEWYDD-12 **(49)** | Trefn ymchwilio ac atal | Mehefin 2026 / Parhaus |
| | RP- C3 **(50)** | Argymhellion ICP | Parhaus |
| | RP- Ch7 **(51)** | Hyfforddiant | Parhaus |
| | RP- Ch6 **(52)** | Cymharu trefniadau | Mai 2026 |

| **Thema 5 – Arferion Cyfyngol**<br>***Swyddog Adrodd: Llion Williams*** | |
|---|---|
| **1. Nod Thema:** | • Diweddaru canllawiau am ffilmio atal yn gorfforol gan oedolion, a sut y dylid cadw cofnodion ffilmio. |
| **2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:** | Gofynnwn i'r Bwrdd;<br>- Herio a chraffu ar gynnydd<br>- Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf. |
| **3. Cynnydd hyd yma:** | • Gweithredodd y troseddwr yn groes i'r Polisi Ysgolion trwy ffilmio achosion - nid yw hyn yn arfer safonol.<br>• Yn ystod ymweliadau Sicrwydd Ansawdd rydym bob amser yn edrych ar y polisi arfer cyfyngol i sicrhau bod hynny'n cyd-fynd â'r polisi enghreifftiol a ddarperir.<br>• Darperir hyfforddiant am ddim trwy'r tîm cynhwysiant<br>• Mae cofnodion gwaharddiadau disgyblion yn amlygu gofynion hyfforddiant ysgolion - Mae'r tîm cynhwysiad yn cysylltu a chefnogi ysgolion yn ychwanegol i'r amserlen hyfforddi parhaol.<br>• Penodi Swyddog Diogelu a Llesiant ychwanegol i'r Tîm er mwyn gallu cyflawni ymweliadau ansawdd blynyddol<br>• Cwmni yn cael ei gomisiynu i:<br>1. Werthuso'r polisi presennol yn erbyn canllawiau cenedlaethol a gofynion statudol<br>2. Dadansoddi cryfderau a gwendidau'r polisi gan nodi arferion da, bylchau, a risgiau o ran cydymffurfiaeth ac arfer adferol.<br>3. Argymell camau gwella ymarferol sy'n sicrhau cydymffurfiaeth lawn ac integreiddio dulliau a sgyrsiau adferol.<br>4. Argymell trefniadau gweithredu clir gyda rolau, atebolrwydd, a dull adferol wedi'i wreiddio mewn ymarfer dyddiol.<br>5. Gwerthuso'r cynllun hyfforddi staff mewn gofynion polisi a sgyrsiau adferol.<br>6. Sefydlu trefniadau adrodd clir ar gyfer digwyddiadau, pryderon, a chanlyniadau sgyrsiau adferol.<br>7. Gweithredu trefniadau monitro ac ymyrryd cadarn<br>• Gweithgor Addysg/Diogelu/ADY wedi ei sefydlu i arwain a hwyluso'r gweithredu fydd yn deillio o'r gwerthusiad |
| **4. Heriau a wynebwyd:** | • Llywodraeth Cymru i weithredu ar yr argymhelliad o gyhoeddi atodiad i Ganllaw y Fframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol. |

<table>
<tr><td></td><td><ul><li>Sicrhau bod pob ysgol yn gallu rhyddhau staff i gadw hyfforddiant yn gyfredol</li><li>Symudiadau a phenodiadau staff ysgolion yn golygu bod yn sefyllfa o ran hyfforddiant yn amrywio yn ystod y flwyddyn – capasiti adran ac ysgolion i’w gadw yn gyfredol</li></ul></td></tr>
<tr><td>5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:</td><td><ul><li>Sefydlu Gweithgor i arwain a hwyluso gweithredu - Rhagfyr 2025</li><li>Sefydlu briff ar gyfer gwerthuso polisi a trefniadau presennol - Rhagfyr 2025</li><li>Adnabod a comisiynu cwmni allanol i werthuso polisi, trefniadau hyfforddiant, cefnogaeth ysgolion, cefnogaeth disgyblion, dulliau monitro cydymffurfiaeth - Ionawr 2026</li><li>Sefydlu cynllun gweithredu yn dilyn y gwaith gwerthuso – Mawrth 2026</li><li>Sefydlu a gweithredu trefn monitro a chydymffurfiaeth gyda’r polisi – Mawrth 2026</li><li>Adolygu strategaeth a chynllun hyfforddi – I’w gadarnhau</li><li>Grymuso trefniadau adrodd a monitro data adroddiadau ysgolion - I’w gadarnhau</li></ul></td></tr>
<tr><td>6. Risgiau / Adnoddau:</td><td>Risgiau:<ul><li>Y broses o gomisiynu a chwblhau’r gwaith gwerthuso polisi a trefniadau yn cymryd hirach na’r disgwyl</li><li>Cydymffurfiaeth parhaus ysgolion</li></ul>Adnoddau:<ul><li>Bydd angen adnodd a system i gofnodi 53.5 – cydweithio gyda Adran TG i sefydlu system/Power Ap i gadw data</li></ul></td></tr>
<tr><td>7. Ystyriaethau Cyfathrebu:</td><td><ul><li></li></ul></td></tr>
<tr><td>8. Amserlenni:</td><td><table>
<tr><td>CPR 25 (53)</td><td>Atodiad i ganllaw - LlC</td><td>Aros am y Llywodraeth</td></tr>
<tr><td>53.1</td><td>Sefydlu is-grwp - ymchwilio</td><td>Rhagfyr - Cwblhawyd</td></tr>
<tr><td>53.2</td><td>Adolygu’r polisi</td><td>Ionawr 2026</td></tr>
<tr><td>53.3</td><td>Mabwysiadu’r polisi</td><td>Chwefror ac yn flynyddol</td></tr>
<tr><td>53.4</td><td>Darparu hyfforddiant</td><td>Chwefror 2026</td></tr>
<tr><td>53.5</td><td>Monitro</td><td>Mawrth 2026 ac yn flynyddol</td></tr>
</table></td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="2">Thema 6 - Cynllunio Argyfwng ac Ymateb i Argyfwng<br>Swyddog Adrodd: Catrin Love</td></tr>
<tr><td>1. Nod Thema:</td><td><ul><li>Sicrhau bod cynllun clir, strategol a chydgysylltiedig ar waith mewn achos o argyfwng</li></ul></td></tr>
<tr><td>2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:</td><td>Gofynnwn i'r Bwrdd;<br>- Herio a chraffu cynnydd<br>- Cynnig unrhyw sylw neu arweiniad, ac arweiniad yn benodol ar bwynt 26d</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **3. Cynnydd hyd yma:** | • Grwp Prosiect wedi ei sefydlu<br>• Wedi camu nôl o'r bwriad gwreiddiol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa a chanllawiau presenol.<br>• Sgwrs allweddol eisoes wedi digwydd gyda Ditectif Arolygydd o Dîm arest yr Heddlu sydd wedi gwella dealltwriaeth yn sylweddol a newid trywydd y cynnwys. Penderfyniad i beidio siarad a staff yr Ysgol.<br>• Deall pa brotocolau ffurfiol Rhannu Gwybodaeth sydd mewn lle yn y maes diogelu a chynllunio argyfwng er mwyn sefydlu os mai mater o godi ymwybyddiaeth ohonynt sydd yma yntau fod angen creu cytundebau newydd. Mae cytundebau WASPI mewn lle ym maes Diogelu ac ar gyfer agweddau penodol o Gynllunio Argyfwng ac mae canllawiau clir gan yr ICO o ran rhannu gwybodaeth mewn argyfwng felly dim angen sefydlu dim canllaw newydd.<br>• Drafft cynnar o Gynllun Crisis Strategol a gweithredol mewn lle.<br>• Trafodaeth wedi bod gyda'r Heddlu ar secondio Gweithiwr Cymdeithasol i'r Heddlu mewn achos diogelu difrifol. Ffafriaeth i gael ymateb hyblyg er mwyn cael y trefniant fwyaf priodol i bob achos yn unigol. Gallai hynny fod yn dimau cyswllt dioddefwr ar y cyd (Heddlu a Gweithwyr Cymdeithasol), gallai fod yn drefniant 'open access' i'r Heddlu neu yn secondiad ffurfiol. |
| **4. Heriau a wynebwyd:** | • Sefydlu beth sydd mewn lle yn barod yn y meysydd sydd yn pontio yma – diogelu, diogelwch ac argyfwng.<br>• Plethu yr holl ddogfennaeth sydd mewn lle yn barod i un ddogfen hawdd a chryno sy'n cyfarch meysydd iechyd a diogelwch, diogelu, argyfwng a gwybodaeth.<br>• Mae hwn yn ofyn ar bob Cyngor erbyn hyn yn sgil Lythyr y Llywodraeth i arweinyddion ac felly cwestiwn yn codi o ran safoni templedi / ddogfennaeth ar draws Siroedd y Gogledd. Mae'n ofyn cenedlaethol ond dim canllaw cenedlaethol.<br>• Mae'n mynd i fod yn her cyrraedd pawb ym mhob ysgol ac mae'r gwaith cychwynnol o fapio'r broses hyfforddi wedi cychwyn fel na fydd oediad unwaith fydd y Cynllun wedi ei gymeradwyo. |
| **5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:** | • Ymgynghori **(diwedd Mawrth 2026)**<br>• Mapio hyfforddiant a pharatoi adnodd hyfforddi **(Tymor addysgol yr Haf 2026)**<br>• Hyfforddi staff ysgolion **(I'w gadarnhau)** |
| **6. Risgiau / Adnoddau:** | • Unwaith bydd y gwaith o fapio'r hyfforddiant wedi ei gwblhau daw'r adnodd a fydd ei angen yn gliriach ond mae cais am adnodd ychwanegol yn y maes argyfwng wedi ei gyflwyno. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **7. Ystyriaethau Cyfathrebu:** | • | | |
| **8. Amserlenni:** | CPR – 26a **(54)** | Adolygu’r cynllun digwyddiadau difrifol strategol | Cynllun drafft erbyn *31/1/26*<br>Cyfnod ymgynghori *31/3/26*<br>Rhaglen hyfforddi *Tymor yr Haf 2026*<br>Argymhelliad i'r Bwrdd i'w gytuno er mwyn cwblhau y weithred. |
| | CPR - 26b **(55)** | Protocol swyddogol – rhannu gwybodaeth | Wedi ei gwblhau |
| | CPR – 26c **(56)** | Cynllun mewn grym / camau cymorth cyflym | Wedi ei gwblhau |
| | CPR - 26d **(57)** | Symud GC i weithio ar secondiad gyda’r Heddlu | Ebrill 2026 |

# Mesur Effaith

## Cyflwyniad - Mesur Cynnydd y Cynllun Ymateb

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r trefniadau ar gyfer mesur cynnydd a gwerthuso effaith y cynllun ymateb. Er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir a chytbwys o weithredu'r cynllun, mabwysiadwyd dull aml-haen sy'n ystyried nid yn unig y gweithgareddau a gyflawnwyd, ond hefyd y cynnydd gweithredol a'r newidiadau ystyrlon sydd wedi deillio o'r gwaith.

Bydd cynnydd yn cael ei fonitro a'i adrodd mewn tri ffordd;


1. **Allbynnau** – Mae hyn yn cyfeirio at y newidiadau pendant a'r gweithgareddau sydd wedi'u cyflawni o ganlyniad i weithredu'r cynllun. Mae'r mesurau hyn yn canolbwyntio ar dystiolaeth o weithredu, megis polisïau, gweithdrefnau, hyfforddiant neu drefniadau newydd sydd wedi'u rhoi ar waith. Bydd yr wybodaeth yma yn cael ei chyflwyno ar ffurf 'infographic' cryno er mwyn darparu trosolwg clir o'r prif ddatblygiadau a chyflawniadau.

2. **Cynnydd y ffrydiau gwaith** – Bydd cynnydd ar draws y 7 ffrwd gwaith yn cael ei fonitro ar lefel strategol, gan ddarparu trosolwg lefel uchel o statws a chyflymder y gwaith. Bydd dangosydd gweledol yn cael ei ddefnyddio i ddangos cynnydd pob ffrwd gwaith yn erbyn y camau gweithredu a gynlluniwyd, gan alluogi dealltwriaeth gyflym o ble mae cynnydd da yn cael ei wneud a ble gall fod angen sylw pellach.

3. **Tabl Mesurau (Effaith)** – Yn ogystal â mesur gweithgarwch a chynnydd, bydd yr adroddiad yn ystyried yr effaith ehangach o'r gwaith ar brofiadau, hyder ac ymarfer. Mae hyn yn cynnwys mesurau ansoddol a meintiol a gyflwynir mewn tabl mesurau, megis adborth rhanddeiliaid, profiadau defnyddwyr gwasanaeth a newidiadau mewn ymarfer gweithredol. Bydd sylw penodol yn cael ei roi i egluro a safoni geiriad rhai mesurau, yn ogystal â chadarnhau amserlenni casglu a chyflwyno data lle bo angen.

Gyda'i gilydd, mae'r dull tri cham hwn yn darparu fframwaith strwythuredig ar gyfer asesu cynnydd y cynllun ymateb, gan sicrhau bod tystiolaeth o weithredu, cynnydd gweithredol ac effaith y gwaith yn cael eu hystyried mewn modd systematig a thryloyw. Bydd hyn yn cefnogi atebolrwydd, dysgu parhaus a gwelliant yn y trefniadau yn y dyfodol.

**1. Allbynnau** – *gweler atodiad isod*



## Beth sydd wedi newid hyd yma yn dilyn adroddiad ***Cyfiawnder Trwy ein Dewrder?***
Chwefror 2026

### Diogelu a Lles Ysgolion



Sefydlwyd **Tîm Diogelu a Lles Addysg** newydd sbon yn 2024.



Mae'r Tîm Diogelu a Lles Addysg yn **ymweld â bob ysgol unwaith y flwyddyn** i wirio bod y rheolau cywir yn cael eu dilyn.



Mae'r Cyngor wedi ychwanegu **gwybodaeth am feithrin perthnasoedd amhriodol ("grooming") i'r hyfforddiant diogelu** sy'n cael ei gyflwyno i bob ysgol.



Mae **Llawlyfr Llywodraethwr newydd** wedi'i greu ac wedi'i rannu gyda holl Lywodraethwyr Ysgolion Gwynedd.

### Sefydlogi'r Ysgol



Mae **Pennaeth a Tîm Rheoli newydd** yn Ysgol Friars.

### Trefniadau Corfforaethol



Mae edrych ar **faint o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu yn rhan o drefniadau monitro perfformiad** pob Adran.



Mae'r Cabinet wedi mabwysiadu **Polisi Canu'r Gloch newydd** i staff y Cyngor.




Penodwyd rôl **Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol** i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu ar draws y Cyngor.


***GWNEUD GWYNEDD YN LE MWY DIOGEL I BLANT A PHOBL IFANC***

## 2. Cynnydd y ffrydiau gwaith

Mae'r rhan hwn yn cyflwyno crynodeb o'r cynnydd hyd yma ar draws ffrydiau gwaith allweddol y rhaglen, gan dynnu sylw at dueddiadau cyffredinol, lefelau cwblhau, a'r cydbwysedd rhwng tasgau a gweithgareddau parhaus ar draws pob thema.

### Cynnydd y ffrydiau gwaith





Mae'r graffiau yma yn dangos y ffrydiau gwaith yn y Cynllun Ymateb gwreiddiol fel adroddwyd Medi 2025.


Mae'r graff (chwith) yn dangos bod 54%, sef 37/68 o'r gweithredoedd, wedi eu cwblhau ar y pryd gyda'r ail graff (dde) yn dangos y cynnydd ar draws y ffrydiau A-Ch.

Mae rhai o'r gweithredoedd oedd heb eu cwblhau unai wedi trosi neu wedi ei ddisodli gan argymhellion yr adroddiad CPR yn CY2. Er nad yw'r 37 gweithred sydd wedi ei gwblhau yn cael ei gynnwys fel rhan o'r 7 thema yn y cynllun newydd mae rhain dal i ddangos y cynnydd sydd wedi digwydd dros amser.




Dangosir y graff hwn y cynnydd sydd wedi ei wneud ers mabwysiadu'r Cynllun Ymateb diwygiedig (Rhagfyr 2025) a sefydlu gweithredoedd newydd o dan y 7 thema.

Mae'r cynnydd mwyaf wedi ei wneud gyda Thema 3 (Hyfforddiant a Pholisiau) gyda 51.4% o'r gweithredoedd wedi eu cwblhau. Mae Thema 4-6 yn eithaf newydd yn dilyn mabwysiadu'r cynllun newydd ac er nad oes cynnydd mesuradwy i weld gyda'r themau hyn eto, mae gweithredu wedi digwydd gyda gwaith paratoi, ymchwilio a chynllunio yn hanfodol cyn gweithredu. Disgwylir y bydd symudiad ar rhain yn fuan.





Mae'r graff hwn yn dangos y dyraniad fesul thema yn unol a natur y gweithred (h.y. tasgau, materion parhaus). Gwelir bod mwy o faterion parhaus er enghraifft lle mae angen gwreiddio arferion dros amser yn llunio rhan o rhai themau (e.e. Thema 2) yn fwy amlwg na themau eraill (e.e. Thema 6) lle disgwylir materion tasg a gorffen.

*Noder hefyd bod rhai o'r gweithredoedd uchod gyda dibyniaethau ar asiantaethau/sefydliadau eraill i weithredu yn gyntaf ac felly nid yw'n bosib gweithredu'n syth ar faterion.*

## 3. Tabl Mesurau (Effaith) - Chwefror 2026


| **Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr**<br>Arweinydd Thema: *Gwern ap Rhisiart** | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Mesur** | **Gwybodaeth berthnasol** | **Diweddariad** |
| **1.** | **Cyfleoedd rheolaidd i eiriolwyr dioddefwyr/goroeswyr (ISVAs) roi adborth i Gyngor Gwynedd ynghylch ansawdd a digonolrwydd y gefnogaeth a'r wybodaeth a roddir gan Gyngor Gwynedd** | **Amserlen:** I'w gadarnhau – angen trafodaeth bellach ar y mater gan obeithio bod mewn lle i gynnig diweddariad i gyfarfod nesaf y Bwrdd (Ebrill 2026). | Trafodaethau rheolaidd 1:1 gyda eiriolwyr (ISVAs) a'r Cyngor i drafod anghenion unigol a chynlluniau gofal y dioddefwyr er mwyn sicrhau darpariaeth cywir ac amserol ac er mwyn sicrhau bod modd adolygu.<br><br>Bwriad sefydlu trefn cyfarfodydd chwarterol gydag eiriolwyr e.e. ISVAs, SARC (Grwp Cefnogi Dioddefwyr) i dderbyn adborth.<br><br>Cyswllt hefyd wedi bod gyda'r bechgyn a'u teuluoedd am unrhyw anghenion a gyflwynir am gefnogaeth ac mae hyn yn parhau i gael ei adolygu'n rheolaidd. |
| **2.** | **Hyder a phrofiad o ddiogelu mewn ysgolion** | **Amserlen:** Bydd modd rhannu data yma erbyn y Bwrdd nesaf (Ebrill 2026). | Mae yna holiadur wedi cael ei rannu a'i lenwi gan bron 2500 o ddisgyblion uwchradd am -<br>• Ydi disgyblion yn gallu siarad gyda rhywun yn yr ysgol?<br>• Ydyn nhw yn ymwybodol lle i fynd am gymorth?<br><br>Bwriad rhannu data am hyder ysgolion fel rhan o ddull arall o gasglu gwybodaeth fydd yn cydfynd efo'r uchod. |


| | | | |
|---|---|---|---|
| **3.** | **Iechyd a Lles Ysgolion Gwynedd (Bywyd Ysgol)** | **Amserlen:** Blynyddol - cyhoeddir y canlyniadau tua Chwefror/Mawrth (posib adrodd ar ddata 2 flynedd). Bwriad i adrodd ar ganlyniadau i'r Bwrdd nesaf (Ebrill 2026). | Cymharu canlyniadau arolwg SHiRN Gwynedd (arolwg iechyd a lles ysgolion) 2025-6 â chanlyniadau cenedlaethol. Yn benodol, yr adran 'Bywyd ysgol'.<br><br>Perfformiad Gwynedd ar y lefel neu ychydig yn well na chyfartaledd Cymru mewn mwyafrif o agweddau, yn enwedig o ran bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol . Fodd bynnag, mae rhai dangosyddion yn waeth na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn gyffredinol, mae'r darlun yn gadarnhaol ond gyda meysydd clir i'w gwella – Gobeithio adrodd ar ganlyniadau SHiRN i'r Bwrdd nesaf. |
| **4.** | **Canran o gynadleddau achos lle bu glywed llais/barn y plentyn (5+oed)** |  | Hwn yn cael ei fesur eisoes yn yr herio perfformiad Plant – gellir adrodd arno yn chwarterol.<br><br>**Canran o gynadleddau achos lle bu glywed llais/barn y plentyn (5+oed)**<br>Ebrill - Medi - 94%<br>Hydref - Tachwedd - 100%<br>Rhagfyr - Ionawr - 100% |
| **5.** | **Canran o gyfeiriadau rhan 5 lle mae gweithiwr gofal cymdeithasol wedi ymdrechu'n rhagweithiol i ymweld** | Gwneir hyn bellach gyda pob cyfeiriad rhan 5, gyda nifer fechan iawn o eithriadau, gan gynnwys:<br><br>• Plant na allant siarad oherwydd anabledd<br>• Plant dan oedran siarad (iau na 5 fel a noda'r mesur)<br>• Plant lle mae rhieni yn gwrthod rhoi caniatâd | Mae'r canran ers cyhoeddi'r adroddiad Cyfiawnder drwy ein Dewrder yn 100%.<br><br>Yn 3ydd chwarter 2025 derbyniwyd 31 cyfeiriad rhan 5. O'r rheiny methwyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **a gwrando ar lais y plentyn (5+oed)** | Noder ein bod wedi addasu geiriad y mesur yn dilyn trafodaeth gyda rheolwyr yr Adran Plant oherwydd yr eithriadau prin uchod. | clywed llais uniongyrchol y plentyn mewn 5 achos.<br><br>O'r 31 aeth 8 ymlaen i gyfarfod strategaeth a clywyd llais y plentyn yn 7 o'r rheiny (88%). Yr un na chlywyd ganddynt yn un o'r 5 (o'r 31 cyfeiriad gwreiddiol). |



| **Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon am Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant**<br>Arweinydd Thema: *Dylan Owen* | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Mesur** | **Gwybodaeth berthnasol** | **Diweddariad** |
| **6.** | **Hyder a phrofiadau staff o gyfeiriadau Rhan 5 ac ymdrin â phryderon lefel isel** | **Amserlen:** Anelu i gychwyn adrodd ar y mesur yma i'r Bwrdd Gorffennaf 2026 | Trafodaeth a gwirio dealltwriaeth o drefniadau yn ymwneud â phryderon lefel isel a honiadau yn erbyn aelodau o staff.<br><br>Edrych ar fesur fel rhan o wiriadau monitro ysgolion a hefyd arolygon cyfnodol a/neu grwpiau ffocws. |
| **7.** | **Hyder staff ac aelodau yn nhrefiadau Canu'r Gloch y Cyngor** | **Amserlen:** Anelu i gychwyn adrodd ar y mesur yma o'r Bwrdd nesaf ymlaen (Ebrill 2026). | Cynamserol ar hyn o bryd gan ein bod newydd fabwysiadu'r polisi ond rhagwelir y byddwn yn codi ymwybyddiaeth a chynnig hyfforddiant i'r gweithlu rhwng Ionawr – Ebrill. Byddwn yn casglu adborth trwy'r drefn hynny. |

| **Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau**<br>Arweinydd Thema: Ian Jones | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Mesur** | **Gwybodaeth berthnasol** | **Diweddariad** |


<table>
<tr>
<td>8.</td>
<td>Cyfraddau DBS ar gyfer staff</td>
<td>



</td>
<td>Data sy’n cael ei adrodd i gyfarfodydd Herio Perfformiad Adran Gwasanaethau Corfforaethol.<br><br>Mae 99% o staff sydd angen gwiriad DBS yn meddu ar un cyfredol. Mae camau rhagweithiol yn cael eu cymryd o ran sicrhau bod y rhai sy’n weddill yn cwblhau’r gwiriad cyn gynted ag y bo modd.</td>
</tr>
<tr>
<td>9.</td>
<td>Cwblhau hyfforddiant diogelu mandadol</td>
<td>


</td>
<td>Data yn cael ei adrodd i Herio Perfformiad Adrannol - % o weithlu’r Cyngor wedi cwblhau hyfforddiant mandadol diogelu.<br><br>Mae 76% o weithlu’r Cyngor wedi cwblhau hyfforddiant mandadol ar Ddiogelu erbyn 16.02.26 ac mae holl adrannau’r Cyngor yn adrodd ar hyn yng nghyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad.<br>Mae ymweliadau ansawdd / trafodaethau gyda staff a holiaduron blynyddol yn cyfrannu at fesur effaith yr hyfforddiant ar yr ymarfer gweithredol.</td>
</tr>
</table>

<table>
<tr>
<td>10.</td>
<td>Nifer a chanran ymweliadau gwirio ansawdd ysgolion</td>
<td>
</td>
<td>Ers Ionawr 2025 mae'r Tîm Diogelu a Llesiant Addysg wedi ymweld â 80 o ysgolion Gwynedd (85%).<br><br>Er bod y cylch wedi dechrau ym Ionawr, nid oedd y Tîm wedi'i sefydlu'n llawn tan Fawrth 2025, felly ni fu'n bosibl cynyddu'r gyfradd ymweliadau tan ar ôl y pwynt hwn.<br>Rydym yn gweithio tuag at ymweld â phob ysgol erbyn diwedd y flwyddyn galendr.<br><br>Bydd yr aelod newydd yn ymuno ym mis Chwefror, gan ein galluogi i gynyddu nifer yr ymweliadau gwirio ansawdd bob mis, yn ogystal â chynnig cefnogaeth a hyfforddiant ychwanegol i ysgolion.</td>
</tr>
<tr>
<td>11.</td>
<td>Cydymffurfiaeth â pholisïau diogelu ysgolion</td>
<td>
</td>
<td>Mae 77 o'r 80 ysgol (96%) yn cydymffurfio'n dda neu'n well â'r gofynion diogelu. Mae tair ysgol yn derbyn ail ymweliad neu gefnogaeth bellach i wirio ac atgyfnerthu agweddau penodol, megis trefniadau cofnodi presenoldeb/absenoldeb a sicrhau bod posteri Diogelu ar gael.<br><br>Mae'r tair ysgol hyn yn derbyn ymweliadau cefnogol ychwanegol i fonitro bod y camau gweithredu'n cael eu cyflawni'n brydlon. Maent yn cydweithio'n llawn ac yn dilyn yr argymhellion a roddwyd.</td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| **12.** | **% staff wedi cwblhau hyfforddiant ar droseddwyr rhyw a 'grooming'** | **Amserlen:** Gwybodaeth yn cael ei gasglu rhwng Ionawr ac Ebrill 2026 – gellir adrodd i gyfarfod y Bwrdd mis Gorffennaf 2026 (posibilrwydd y bydd rhywfaint o wybodaeth ar gael cyn hynny). | Dim hyfforddiant yn bodoli eto. Gwas. Plant ac Addysg yn y broses o gomisiynu cwmni allanol i ddarparu dull hyfforddi i holl staff y Cyngor yn ogystal â Ysgolion a Llywodraethwyr. Disgwylir y bydd y modiwl yn barod erbyn Ebrill/ Mai 2026. Bydd elfen o fesur / asesu dealltwriaeth yn rhan o'r hyfforddiant. |

| **Thema 4 - Llywodraethiant Ysgolion**<br>Arweinydd Thema: Alison Halliday<br>**Rhif** | **Mesur** | **Gwybodaeth berthnasol** | **Diweddariad** |
|---|---|---|---|
| **1.** | **Arolygiadau ysgolion Estyn: niferoedd sy'n cydymffurfio â celfyddyd diogelu** |  | Nid oes unrhyw ysgol yng Ngwynedd wedi cael argymhelliad am ddiwylliant diogelu.<br><br>Mae un ysgol wedi derbyn argymhelliad am drefniadau diogelu wrth i ddisgyblion adael safle yn ystod y diwrnod ysgol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **14.** | **% o gyrff llywodraethu ysgolion sy'n adrodd bod pob aelod wedi cwblhau hyfforddiant mandadol** | <br> | Data holiadur Blynyddol Diogelu Tachwedd yn nodi fod **88% o Lywodraethwyr** Gwynedd wedi cwblhau'r hyfforddiant mandadol diogelu. 12% arall yn nodi ei fod yn cael ei gyflawni yn / erbyn y cyfarfod llawn nesaf.<br><br>*Hwn ddim yn cael ei adrodd yn Herio Perfformiad eto – Cadeirydd yn unig ar hyn o bryd*. Angen symud i sicrhau hyfforddiant diogelu mandadol i gyd yn cael ei gwblhau o fewn y tymor cyntaf. Bydd angen sefydlu mecanwaith i gasglu y wybodaeth yma yn rheolaidd. |
| **15.** | **Hyder y Corff Llywodraethol yn eu gallu i fod yn Gyfaill Beirniadol i'r ysgol.** | **Amserlen:** Gwybodaeth yn cael ei gasglu cyn diwedd tymor yr Haf er mwyn gallu adrodd i'r Bwrdd ar ddechrau'r tymor newydd (Medi 2026). | Mesur hyn drwy holiaduron di-enw i bob llywodraethwr – hyder yn eu rol, llais mewn penderfyniadau ayb<br><br>% o ysgolion y mae Estyn yn adrodd bod diwylliant o ymholi ac i fod yn gyfaill beirniadol yn bodoli. |

| **Thema 5 - Arferion cyfyngol**<br>Arweinydd Thema: Llion Williams<br>**Rhif** | **Mesur** | **Gwybodaeth berthnasol** | **Diweddariad** |
|---|---|---|---|
| **16.** | **% o staff yr ysgol sy'n cwblhau hyfforddiant** | **Amserlen:** Gwybodaeth bron yn barod i'w gylchredeg - Chwefror 2026 *(gwybodaeth i ddilyn)* | Mae’r tîm cynhwysiad yn dadansoddi % sydd wedi derbyn hyfforddiant. Bydd y strategaeth hyfforddi yn cael ei werthuso fel rhan o’r gwerthusiad allanol. |
| **17.** | **% o ysgolion yn cydymffurfio gyda’r** | **Amserlen:** Bydd modd rhannu data yma erbyn y Bwrdd nesaf (Ebrill 2026). | Mae pob ysgol yng Ngwynedd wedi mabwysiadau y polisi cyfredol ar Arferion |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **polisi model arferion cyfyngol.** | | Cyfyngol. Bydd unrhyw addasiadau yn dilyn y gwerthusiad allanol yn cael eu cynnwys fel diweddariad i'r polisi cyfredol ac yn cael eu rhannu gyda'r ysgolion er mwyn iddynt fabwysiadu'r polisi diweddaraf.<br><br>Posib mesur yr ymweliadau ansawdd diogelu sy'n sicrhau cydymffurfiaeth a cylchredeg holiadur blynyddol yn gwirio os ydi ysgolion wedi mabwysiadu. |
| **18.** | **Ansawdd Diogelu - Cydymffurfiaeth polisi, lefel hyfforddiant, prosesau adrodd a gwerthuso yn cael eu cynnal yn ystod yr ymweliadau blynyddol.** | **Amserlen:** Mae'r agwedd yma yn cael ei hychwanegu i ymweliadau Ansawdd Diogelu o ddechrau mis Chwefror 2026. Bydd modd rhannu data yma erbyn y Bwrdd nesaf (Ebrill 2026). | Mesur cofnod o drafodaethau gyda'r Pennaeth / Llywodraethwr Dynodedig / Person dynodedig.<br><br>Mae'r agwedd yma yn cael ei hychwanegu i ymweliadau Ansawdd Diogelu o ddechrau mis Chwefror 2026. |
| **19.** | ***Adrodd ar y ddau fesur isod mewn cyfarfodydd herio perfformiad:***<br>• **Nifer o adroddiadau o ddefnydd o arferion cyfyngol gan ysgolion.**<br>• **% o'r adroddiadau sydd wedi derbyn llais y plentyn fel rhan o'r adroddiad** | **Amserlen:** Bydd modd rhannu data yma erbyn y Bwrdd nesaf (Ebrill 2026). | *Data o ysgolion yn cael eu crynhoi a'u cyflwyno fel rhan o'r broses Herio Perfformiad - chwarterol*<br><br>Bydd hyn yn cael ei weithredu yn dilyn y gwerthusiad allanol o'r polisi a trefniadau presennol. |

**Thema 6 - Cynllunio Argyfwng ac Ymateb i Argyfwng**

Arweinydd Thema: Catrin Love

| Rhif | Mesur | Gwybodaeth berthnasol | Diweddariad |
|---|---|---|---|
| **20.** | **<u>Cynlluniau Crisis:</u>**<br>**Nifer ysgolion / staff / Llywodraethwyr ym mhob ysgol sydd wedi derbyn hyfforddiant Cynllun Crisis Argyfwng.**<br><br>**Nifer archwiliadau boddhaol o gynlluniau crisis ar y safleoedd y Cyngor** | **Amserlen:**<br>• Hyfforddiant i gael ei amserlennu cgaph (amserlen adrodd i'r Bwrdd i'w gadarnhau).<br>• Rhaglen archwiliadau blynyddol i gychwyn o Medi 2026 (adrodd i'r Bwrdd yn dilyn hynny). | Adrodd ar y niferoedd sy'n derbyn yr hyfforddiant priodol.<br><br>Mesur lefel hyder staff cyn ac ar ôl yr hyfforddiant. |
| **21.** | **<u>Cynlluniau Crisis:</u>**<br>**Nifer archwiliadau boddhaol o gynlluniau crisis ar y safleoedd y Cyngor** | **Amserlen:**<br>• Rhaglen archwiliadau blynyddol i gychwyn o Medi 2026 (adrodd i'r Bwrdd yn dilyn hynny). | Rhaglen archwiliadau blynyddol i wirio nifer sydd yn foddhaol. |